# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 30AIN TACHWEDD, 2023**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: Cynhelir sesiwn briffio i'r Aaelodau am 10:15yb**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

### AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Kim Jones | Linda Morgan |
| Edgar Wyn Owen | Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Rhys Tudur | |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Gwilym Jones |
| Elfed Powell Roberts | Peter Thomas |
| Rob Triggs | Gruffydd Williams |

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 05.10.2023 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23** 11 - 38

Diweddariad ar y cynnydd wnaed wrth weithredu'r Cynllun ers Mawrth 2022.

**6. STRATEGAETH LLIFOGYDD LLEOL** 39 - 63

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth Llifogydd Lleol erbyn Hydref 2023. Mae'r gwaith wedi ei ddyrannu fel risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol.

**7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24** 64 - 65

Mabwysiadu rhaglen waith ddiwygiedig.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 10 HYDREF 2023**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)
Annwen Hughes (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Glyn Daniels, Linda Morgan, Rob Triggs, Delyth Lloyd Griffiths, Gwilym Jones, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P. Roberts, Peter Thomas, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Ellie Evans (Cynorthwywr Gweinyddol Gwasanaeth Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Rebeca Angharad Jones (Rheolwr Polisi Cynllunio).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) ac Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC) a Llifon Arwyn Foulkes (Uwch Beiriannydd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Kim Jones ac Elwyn Edwards.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

Bu i'r Cynghorwyr Elin Hywel, Stephen Churchman, Gruffydd Williams a Rhys Tudur ddatgan, yng nghyswllt Eitem 5, eu bod yn aelodau o'r Gweithgor Polisi Cynllunio. Roedd y Gweithgor eisoes wedi rhoi sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni.

Ni fu iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023, fel rhai cywir.

**5. CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD**

Cadeiriwyd y drafodaeth ar yr eitem yma gan yr Is-Gadeirydd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd a Rheolwr Polisi Cynllunio. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei greu yn dilyn adolygiad diweddar. Manylwyd fod y broses o'i ddatblygu'n un technegol gyda nifer o gamau sydd angen eu cyfarch yn statudol.

Cadarnhawyd mai'r cam cyntaf yw mabwysiadu Cytundeb Cyflawni. Esboniwyd bod holl broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ei rannu i 7 cam, gydag amserlen fras a chyfnodau ymgynghoriad allweddol wedi ei nodi ar gyfer pob agwedd.

Nodwyd bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cael eu cymryd i'w ystyriaeth cyn cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni i'r Cabinet ar 10 Hydref 2023. Manylwyd bydd y mater yn cael ei gyflwyno i Weithgor Polisi Cynllunio ym mis Ionawr, cyn dychwelyd i'r Cabinet a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn pan yn amserol.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ychwanegu 'ymgynghori' fel risg o fewn Atodiad 5 y Cynllun ("Risgiau Posib a dulliau ymateb"). Nodwyd ei fod yn amlwg o'r ddogfen fod ymgynghori yn ran pwysig o'r cytundeb cyflawni ac yn cael sylw ond ddim wedi ei nodi fel risg. Sef, y risg o beidio ymgynghori yn ddigonol. Ymhelaethwyd gan ei fod yn elfen mor bwysig, fyddai'n fuddiol ei gynnwys fel risg er mwyn sicrhau ei fod yn cael sylw yn gyson. Derbyniwyd bod yr amserlen i gwblhau'r Cynllun yn heriol ac felly ystyriwyd y posibilrwydd byddai'n anodd i ymgynghori'n effeithiol o fewn yr amser hynny gan sicrhau bod nifer fawr o ymatebion yn cyrraedd y swyddogion, gan sicrhau amser i'w dadansoddi. Holwyd yng nghyswllt yr ymgynghori blaenorol gan ofyn a ddysgwyd rhywbeth o'r ymgynghoriad blaenorol ac a weithredwyd ar yr hyn a ddysgwyd i fwydo i mewn i'r ymgynghori oedd i ddod.

Croesawyd bod y rhestr o gyrff y bwriedir ymgynghori â hwy yn cynnwys grwpiau wedi eu tangynrychioli a bod yr ymgynghoriad yn agored i bawb ymateb. Cyfeiriwyd at y dulliau ymgynghori gan nodi pryder eu bod yn ddulliau arferol a ddefnyddir wrth ymgynghori. Holwyd sut y sicrheir ymateb gan y grwpiau wedi eu tangynrychioli a sylweddoli'n gynnar ni dderbyniwyd ymatebion ganddynt a gwneud rhywbeth amdano. Nodwyd bod rôl i gynghorwyr gefnogi'r gwaith.

Mewn ymateb i'r ystyriaethau hyn, nododd Aelod Cabinet Amgylchedd ei fod yn bwysig iawn bod y Cyngor yn cymryd perchnogaeth o'r cynllun hwn, drwy sicrhau bod Aelodau'n annog unrhyw un addas i gwblhau unrhyw ymgynghoriad ac yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar y Cynllun pan yn amserol. Esboniwyd bod yr Adran wedi diwygio'r dulliau maent yn ei ddefnyddio wrth ymgynghori yn dilyn adborth o'r gorffennol a gobeithiai bydd hyn yn arwain at niferoedd uwch o ymatebion y tro hwn.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar bedwar achlysur gwahanol. Esboniwyd mai'r gofyniad statudol i gyflwyno'r Cynllun yw dwywaith, ac felly mae Cyngor Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y broses yn gynhwysol ac yn rhoi nifer o gyfleoedd i dderbyn adborth arno.

Datganwyd gan y Rheolwr Polisi Cynllunio bod Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei wneud gan swyddogion ar ddechrau'r broses o greu Cynllun newydd. Manylwyd bod yr asesiad hwn yn sicrhau bod lleisiau grwpiau a chymdeithasau o fewn ein cymunedau yn cael eu clywed. Soniwyd bod hyn wedi bod yn fuddiol wrth ddatblygu Atodiad 6

("Rhestr o Ymgynghoron") o fewn y Cynllun. Esboniwyd bod nifer helaeth o ymgynghorai wedi eu rhestru yma, boed yn gyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl, pobl gyda busnesau a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymreig. Cydnabuwyd nad yw holl gyrff posibl wedi cael eu nodi o fewn yr Atodiad ond sicrhawyd nad yw'r rhestr hwn yn un holl gynhwysfawr. Cadarnhawyd bod ymgynghoriadau gyda chyrff ychwanegol yn mynd i gael eu cyflawni os bydd yr angen yn codi.

Sicrhawyd y bydd Aelodau yn cael diweddariadau cyson o ddatblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth**
2. **Argymell i'r Cabinet y dylid ychwanegu 'ymgynghori' fel risg posib i'r Cynllun Datblygu Lleol.**

**6. CYFLWYNO PWYNTIAU GWEFRU CYHOEDDUS AR GYFER CERBYDAU TRYDAN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd a Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod y Cyngor ynghlwm â phrosiect heriol a thechnegol i osod dros 100 o bwyntiau gwefru mewn 25 safle ar draws Gwynedd, gydag 16 o'r heini yn cynnwys pwyntiau gwefru chwim. Eglurwyd bod yr Adran yn cynnig cyfleon newydd i'w staff gan eu bod yn derbyn hyfforddiant i osod y pwyntiau gwefru eu hunain, yn hytrach na chontractio'r gwaith i gwmni allanol.

Adroddwyd bod y prosiect hwn wedi ei rannu i bum rhan, ac mai gosod y pwyntiau gwefru yw'r cam cyntaf. Nodwyd mai dyma'r unig gam bydd y Cyngor yn gallu ei gyflawni yn annibynnol a bydd rhaid dibynnu ar gyrff eraill i gydweithio ar y camau eraill er mwyn cyflawni'r prosiect. Eglurwyd bod hyn wedi achosi cryn oedi yn y prosiect hyd yma, gan fod nifer o bwyntiau gwefru wedi cael eu gosod ond ddim wedi cael eu cysylltu i'r rhwydwaith eto. Sicrhawyd bod yr Adran wedi dysgu o'r heriau hyn ac yn hyderu na fyddai'r un trafferthion yn codi wrth weithredu'r prosiect i'r dyfodol.

Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn ymatebion cadarnhaol i lythyr yn ddiweddar ynghylch cael pwyntiau gwefru cymunedol. Cydnabuwyd nad oes modd i bawb gwefru eu ceir adref gan nad oes gan bob tŷ man parcio agos neu bod y lleoliad y man parcio yn anodd i'w gysylltu. Adroddwyd bod cynlluniau i gael pwyntiau gwefru cymunedol yn y dyfodol.

Mynegwyd siom bod y Llywodraeth wedi newid eu targed o atal ceir petrol a disel erbyn 2030, yn ôl hyd at 2035.

Cadarnhawyd bod ymgynghori yn rhan bwysig o'r broses gan fod casglu adborth o ddefnyddwyr y pwyntiau gwefru yn hanfodol. Eglurwyd bod yr adborth sydd eisoes wedi ei dderbyn gan ddefnyddwyr y pwyntiau gwefru yn gadarnhaol. Esboniwyd bod adborth yn cael ei gasglu wrth i ddefnyddwyr orffen defnyddio'r pwynt gwefru a bod eu hymatebion yn cael eu gyrru i system fewnol o dan reolaeth y Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn yng nghyswllt ymgynghoriadau'r Cyngor gyda cymdeithasau tai ynglŷn â pwyntiau gwefru, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd bod y prif bwyslais yn cael ei roi i'r 25 man presennol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cadarnhawyd

bod gan y Cyngor berthynas clos gydag cymdeithasau tai ac mae pwyntiau gwefru wedi eu cynnwys fel rhan o Gynllun Gweithredu Tai y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad ar ddulliau o dalu am wasanaeth y pwyntiau gwefru, cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau y bydd tair ffordd i wneud hyn. Manylwyd bod modd defnyddio cerdyn penodol ar gyfer y pwyntiau gwefru, drwy ap ar ffôn symudol ac yn y dyfodol gobeithir bydd darpariaeth i dalu drwy gerdyn banc arferol.

Rhannwyd pryderon nad oes digon o fetel i gynhyrchu batris ar gyfer mwy o geir trydan ar hyn o bryd yn ogystal â phryderon bydd cael ceir trydan yn fwrn mawr i'r rhwydwaith trydanol ymdopi ag o. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, cydnabuwyd bod yr her o annog pobl Gwynedd i ddefnyddio ceir trydan yn sylweddol. Er hyn, pwysleisiodd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd bod y prosiect hwn yn bwysig fel rhan o dargedau cynllun newid hinsawdd a natur.

Holwyd os oes modd darparu mwy o bwyntiau gwefru chwim yn y dyfodol, gan eu bod yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod defnyddio mwy o bwyntiau chwim yn heriol i'r rhwydwaith trydanol, ond bydd y Adran yn ôl i'r Pwyllgor gyda diweddariad ar y mater hwn pan yn amserol.

Sicrhawyd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn datblygu cynllun busnes ar gyfer y pwyntiau gwefru. Nodwyd bod hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r arian a gasglwyd wrth i bwyntiau gwefru cael eu defnyddio, a'r posibilrwydd o ddefnyddio paneli solar i'w pweru. Cadarnhawyd bod nifer o syniadau wedi cael eu cyflwyno a bod gwaith ymchwil yn cael ei gwblhau i sicrhau bod yr opsiynau gorau yn cael eu dewis. Ychwanegwyd bydd yr Adran yn darparu adroddiad ar gynnydd y prosiect pan yn amserol.

Cydnabuwyd bod y newid hwn i gerbydau trydan yn newid mawr i orsafoedd petrol. Croesawyd unrhyw gyfle i'w cefnogi gyda'r newid hwn.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth**
2. **Gofyn i'r Aelod Cabinet/Adran Amgylchedd edrych i mewn i ddarparu mwy o beiriannau gwefru chwim**
3. **Derbyn adroddiad cynnydd pan yn amserol**

## 7. TOILEDAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC ac yr Uwch Beiriannydd. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod 61 o doiledau cyhoeddus wedi eu lleoli ar draws y sir. Cydnabuwyd bod cyfraniad Cynghorau Cymunedau a Threfi yn hanfodol i'w cadw ar agor, Ychwanegwyd bod 29 toiled cyhoeddus sy'n cael ei reoli gan gymunedau, gan gynyddu'r cyfanswm sydd ar gael i drigolion i 90 toiled cyhoeddus.

Cadarnhawyd bydd Strategaeth Toiledau Cyhoeddus newydd yn cael ei gyflwyno erbyn mis Tachwedd 2024 ac felly mae'r adran yn ail-edrych ar yr angen i godi ffioedd i ddefnyddio'r toiledau cyhoeddus. Esboniwyd bod ffioedd o 20c i ddefnyddio toiledau cyhoeddus penodol yng Nghaernarfon, Dolgellau, Porthmadog a Phwllheli.

Cyflwynodd aelod ddadansoddiad a gwybodaeth am doiledau cyhoeddus a thoiledau cymunedol yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Nododd y dylid atal codi ffioedd tan fod posib talu yn ddigyswllt. Holodd am y nifer o fusnesau a oedd ar y rhestr aros ar gyfer y Cynllun Grant Cymunedol. Nododd ei bod yn edrych ymlaen at weld gwelliannau yn y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelod, nododd Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC ei werthfawrogiad o'r dadansoddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd. Eglurodd y byddai'n ymateb yn llawn i'r aelod yn dilyn derbyn y wybodaeth ar e-bost. Nododd bod rhestr aros ar gyfer y Cynllun Grant Cymunedol. Eglurodd y derbynnir cyllid yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn cynyddu, ac o'r herwydd yn gyfyngedig o'r nifer all fod yn rhan o'r cynllun.

Rhannwyd pryderon am system codi ffioedd ar ddefnyddwyr y toiledau cyhoeddus. Manylwyd os yw'r ffi yn 20c yn gyfredol, bydd angen codi'r ffi i 50c gan mai dim ond un darn o arian gall ei roi ar unwaith. Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC bod ymchwiliadau yn cael ei wneud i ychwanegu peiriannau i alluogi defnyddwyr dalu gyda cherdyn (yn ychwanegol i'r peiriant casglu arian parod presennol). Byddai hyn yn lleddfu'r angen i gael swyddogion i gasglu'r arian parod mor aml, ac yn gymorth wrth ystyried ffioedd yn y dyfodol. Yn ogystal, adroddwyd bod ystyriaethau yn cael eu cynnal i weld os oes angen codi ffi o unrhyw fath, a gwneud y toiledau am ddim, drwy osod bocs o gyfraniadau yn hytrach na ffi.

Amlygwyd bod y gwasanaeth yn edrych ar y tri opsiwn canlynol i'r dyfodol, mewn cysylltiad gyda'r ystyriaeth o godi ffioedd i ddefnyddwyr y toiledau cyhoeddus:

1. Diddymu'r ddarpariaeth codi ffioedd yn gyfan gwbl o'r 5 toiled cyfredol
2. Parhau gyda'r drysau talu o fewn y 5 toiled cyhoeddus cyfredol gan amnewid y drysau talu i dechnoleg o beiriannau sy'n derbyn taliadau di gyffwrdd ac arian parod.
3. Ehangu ar y ddarpariaeth o ddrysau talu ffi mynediad.

Nodwyd bod yr adran yn cyflwyno bid trwy drefn bidiau'r Cyngor er mwyn sicrhau'r gyllideb i fuddsoddi yn nhoiledau cyhoeddus y sir.

Tynnwyd sylw i gynllun Grantiau Toiledau Cymunedol, ble mae modd i leoliadau ymgeisio am hyd at £500 o grant i sicrhau glendid a diogelwch toiledau, er mwyn i'r cyhoedd eu defnyddio heb ddisgwyliad o brynu nwyddau neu wasanaeth. Manylwyd bydd lleoliadau cymeradwy yn derbyn arwyddion gan y Cyngor i hysbysu'r cyhoedd o'r gwasanaeth hwn. Nodwyd bod 35 eiddo yn rhan o'r cynllun ar hyn o bryd, gyda lleoliadau ychwanegol ar restr aros. Cydnabuwyd bod yr adran wedi derbyn adborth nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o'r cynllun hwn a bydd gwaith yn cael ei wneud i'w hyrwyddo.

Nodwyd y dylid ystyried diwygio'r wefan i gynnwys oriau amser penodol i'r toiledau cyhoeddus yn hytrach na nodi os yw ar agor yn dymhorol neu drwy'r flwyddyn. Esboniwyd byddai hyn yn sicrhau trigolion o flaen llaw os bydd y cyfleusterau ar gael iddyn nhw wrth deithio.

Nodwyd bod angen gwneud gwell defnydd o'r arwyddion sy'n hysbysu defnyddwyr o ble mae'r toiledau cyhoeddus. Esboniwyd bod rhai enghreifftiau ble mae'r arwyddion yn aneglur, neu nad oes arwydd yno o gwbl, a cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud gan yr adran i geisio sicrhau bod arwyddion clir yn dangos ble mae pob toiled cyhoeddus wedi'i leoli.

Mewn ymateb i ymholiad ar fandaliaeth, cadarnhaodd yr Uwch Beiriannydd ei fod yn gyfuniad o fandaliaeth gyffredinol o fewn y toiledau cyhoeddus a fandaliaeth oherwydd y ffioedd sy'n cael ei godi.

Mewn ymateb i ymholiad am sicrhau fod pawb yn gallu defnyddio'r toiledau cyhoeddus, cadarnhaodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC bod arolwg yn cael ei gynnal i wneud yn siŵr os yw'r toiledau cyhoeddus ar gael i bawb, a sut gellir eu newid er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch. Croesawyd bwriad yr adran i gynnal ymgynghoriad cydraddoldeb o fewn y toiledau cyhoeddus er mwyn sicrhau fod gan yr holl ddefnyddwyr y cyfleusterau maent eu hangen.

Rhoddwyd ystyriaeth o'r angen i ail-drafod gyda cynghorau cymuned am doiledau cyhoeddus sydd bellach ar gau. Eglurwyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r cynghorau cymuned er mwyn sefydlu partneriaethau am ofal y toiledau cyhoeddus. Nodwyd bod rhai enghreifftiau ble mae'r partneriaethau hyn wedi methu ac fod y toiledau bellach ar gau. Ystyriwyd y byddai'n fuddiol i godi'r pwnc yma gyda'r cynghorau cymuned eto gan bod nifer o gynrychiolwyr newydd yn rhan ohonynt yn dilyn yr etholiad yn 2022.

Cytunwyd byddai'r adran yn darparu diweddariad, gan gynnwys asesiad o'r opsiynau posib ar gyfer y drefn ffioedd pan yn amserol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth**
2. **Derbyn diweddariad gan gynnwys asesiad o'r opsiynau posib ar gyfer y drefn drysau talu pan yn amserol.**

**8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2023/24 wedi'i fabwysiadu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Gorffennaf 2023.

Eglurwyd yr angen i ddiwygio'r blaenraglen ar gyfer 2023/24. Nodwyd bod yr eitem 'Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod hwn ond derbyniwyd cais i'w ail-raglennu gan ei fod yn gynamserol i'w graffu. Manylwyd bod Rheolwr Rhaglen y Bwrdd wedi cadarnhau y byddai'n amserol i gyflwyno'r adroddiad yn rhan o gyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023.

Cadarnhawyd mai un adroddiad byddai'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC yn cyflwyno i gyfarfod 30 Tachwedd 2023 o'r Pwyllgor o dan y teitl 'Strategaeth Llifogydd Lleol'. Sicrhawyd byddai'r adroddiad hwn hefyd yn cyfarch y materion oedd dan sylw pan flaenoriaethwyd yr eitem 'Rheolaeth yr Arfordir' yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor. Esboniwyd bod y penderfyniad i gyfuno'r ddwy eitem yn caniatáu amser digonol i graffu'r eitemau hyn yn effeithiol.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:55yp

________________________________

CADEIRYDD

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 30 Tachwedd 2023 |
| **TEITL** | Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 |
| **AWDUR** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **PWRPAS** | Diweddariad ar y cynnydd wnaed wrth weithredu'r Cynllun ers Mawrth 2022 |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

1.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

1.3 Daeth y Cynllun yn weithredol fis Ebrill 2022 ac felly mae'n amserol i gyflwyno Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23 (Adroddiad Blynyddol) sy'n pwyso a mesur yr hyn a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf bodolaeth y cynllun. Mae'r Adroddiad Blynyddol i'w weld yn Atodiad 1.

1.4 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet ar 19eg Rhagfyr, felly mae cyfle i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gynnig unrhyw sylwadau ar gynnwys yr adroddiad i'w hystyried gan y Cabinet.

**2. DIWEDDARIAD**

2.1 Mae'r 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2022/23' yn rhoi crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Isod y mae crynodeb o'r gwaith sydd wedi parhau rhwng Ebrill a Hydref 2023.

2.2 Adeiladau ac Ynni –

Mae ymgynghorwyr wedi eu penodi i'r prosiect Paneli Solar Gwedd 4 ac maent wrthi'n asesu dyluniadau a gosodiadau'r adeiladau, ynghyd â phosibiliadau ar gyfer cysylltu â'r grid cenedlaethol.

Rydym wedi ymchwilio i ddull newydd o bweru goleuadau LED dros y we, ond roedd y costau yn waharddol o ddrud os yn ôl-ffitio adeiladau. Gall fod, er hynny, yn dechnoleg i'w ddefnyddio mewn adeiladau fydd yn cael eu hadeiladu o'r newydd. Mae cynllun busnes wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn adnewyddu goleuadau LED a'u pweru drwy system gwifrau draddodiadol.

Mae cais grant yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer astudiaeth dichonoldeb i osod pympiau gwres mewn 3 safle.

2.3 Symud a Thrafnidiaeth -

Fel rhan o'r prosiect Paneli Solar Gwedd 4, mae rhai o'n adeiladau yn cael eu hasesu er mwyn i drydan y paneli solar fwydo pwyntiau gwefru at ddefnydd ein fflyd neu geir staff ac aelodau. Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ddiweddariad o'r sefyllfa er mwyn gosod pwyntiau gwefru at ddefnydd y cyhoedd yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2023 - Adroddiad Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan.pdf (llyw.cymru).

Derbyniwyd grant gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gyfrannu tuag at brynu ceir trydan ar gyfer fflyd y Cyngor, ac ar ddiwedd Hydref roedd gennym 17 o gerbydau trydan. Rydym yn aros i 44 yn rhagor o geir a faniau bychain sydd wedi eu harchebu i gyrraedd.

2.4 Hyfforddiant – mae 50 o staff ac aelodau'r Cyngor wedi derbyn hyfforddiant Llythrennedd Carbon, ac mae e-fodiwl hyfforddiant wrthi'n cael ei ddatblygu at ddefnydd holl staff ac aelodau'r Cyngor.

2.5 Cyllid -

Mae ein prosiectau presennol wedi eu cyllido o amrywiol ffynonellau -

Cronfeydd y Cyngor; grantiau gan Lywodraeth Cymru (ee. Gwasanaeth Ynni, Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Cronfeydd ychwanegol yr ydym yn ymchwilio iddynt ar gyfer ariannu gwaith i'r dyfodol – Llywodraeth Cymru (Grant Gwres Carbon Isel) Chwaraeon Cymru, Llywodraeth San Steffan (ORCS – gwefru ar y stryd)

2.6 Y Dyfodol / Cam 2 -

Yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur rydym yn nodi y byddwn yn aros i lunio Strategaeth Llifogydd Lleol yn 2023/24 cyn gweld sut mae dod a phrosiectau a thargedau er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd i mewn i'r Cynllun. Gan fod y Strategaeth Llifogydd Lleol hefyd yn cael ei thrafod yn y cyfarfod hwn ar 30 Tachwedd byddwn yn adlewyrchu ar y drafodaeth honno wrth symud ymlaen.

Mae ein ffocws ar hyn o bryd yn parhau ar gynllunio a chyllido prosiectau sydd yn mynd i leihau allyriadau carbon y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Er hynny, mae nifer o'n prosiectau yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid allanol, neu yn cyfrannu at leihau allyriadau carbon Gwynedd fel sir – ee. Gosod pwyntiau gwefru cyhoeddus i gerbydau trydan; biniau ailgylchu cyhoeddus; cefnogi ceisiadau grant llwyddiannus Partneriaeth Ogwen, Antur Waunfawr a Siop Griffiths; prosiectau hyrwyddo bioamrywiaeth drwy Bartneriaeth Natur Gwynedd.

**3. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

3.1 Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd unrhyw sylwadau sydd gan y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet.

3.2 Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr.

3.3 Os fydd y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad byddwn yn rhannu cyhoeddusrwydd amdano ac yn annog trigolion Gwynedd

# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

## Cyngor Gwynedd



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd | **2** |
| 2. | Cefndir | **3** |
| 3. | Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | **4** |
| 4. | Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol | **6** |
| 5. | Adeiladau ac Ynni | **9** |
| 6. | Symud a Thrafnidiaeth | **12** |
| 7. | Gwastraff | **14** |
| 8. | Llywodraethu | **16** |
| 9. | Caffael | **18** |
| 10. | Defnydd Tir | **19** |
| 11. | Ecoleg | **21** |
| 12. | Camau Nesaf | **23** |

# 1. Rhagair Arweinydd y Cyngor



Rwy'n falch o fedru cyflwyno yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd 2022/23 – 2029/30. Mae'r adroddiad yn ceisio crynhoi yr holl waith sydd wedi ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf y cynllun pwysig hwn, ers i Gabinet y Cyngor ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2022.

Mae'n newyddion gwych bod allyriadau carbon sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor wedi gostwng 20% rhwng 2019/20 a 2022/23, ond yr her fwyaf yw'r un sydd o'n blaenau, sef cyrraedd sefyllfa o fod yn 'garbon sero net'.

Yn fy rhagair i'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur dwi'n sôn am yr "heriau anferthol sydd o'n blaenau" wrth i ni ymateb i effeithiau newid hinsawdd ar ein byd. Dyw'r heriau hynny yn sicr heb leihau, yn wir mae'n bosib dadlau eu bod wedi cynyddu. Gwelsom gynnydd brawychus mewn costau ynni yn ystod y flwyddyn ac mae hynny wedi rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau'r Cyngor ac ar drigolion Gwynedd. Ein ymateb i'r argyfwng yma oedd buddsoddi £2.8m mewn cynllun 2 flynedd i osod rhagor o baneli solar ar ein adeiladau fydd yn cynhyrchu trydan i ni ei ddefnyddio. Bydd hyn yn arwain at arbedion ariannol ond wrth gwrs bydd hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at leihau allyriadau carbon yr adeiladau hynny.

Gan fod yr argyfwng costau byw yn taro pobl Gwynedd yn galed rydym wedi bod yn cynnal sesiynau galw i mewn a gweithdai, ac wedi bod yn rhannu gwybodaeth am sut all ein trigolion arbed arian drwy arbed ynni yn eu cartrefi. Mi yda' ni'n llwyr ymwybodol na ddylai neb gael eu gadael ar ôl wrth i gymdeithas symud tuag at ddefnyddio dulliau i insiwleiddio a gwresogi adeiladau sy'n allyru llai o garbon.

Mi welwch sawl enghraifft yn yr adroddiad hwn hefyd o gydweithio bendigedig rhwng mudiadau gwirfoddol a chymunedol â'r Cyngor, yn enwedig ar brosiectau i warchod a hyrwyddo byd natur. Rydym fel Cyngor yn ddiolchgar iawn i bob unigolyn sy'n rhoi o'i amser i wneud eu cymuned leol yn le braf a iach i fyw ynddo, nid yn unig heddiw ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er mai edrych yn ôl ar waith 2022/23 mae'r adroddiad hwn, mae fy llygaid i'n sicr yn edrych tua'r dyfodol. Mae yna lawer rhagor o waith yn gorwedd i'r cyfeiriad hwnnw, ac mae llawer o'r gwaith sydd wedi cychwyn yn ystod 2022/23 yn mynd i gymryd sawl blwyddyn cyn y gwelwn ei effaith yn llawn. Ymlaen â'r gwaith!



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

## 2. Cefndir

Yn dilyn cyhoeddi 'argyfwng newid hinsawdd' yng nghyfarfod o'r Cyngor fis Mawrth 2019 fe sefydlwyd y Bwrdd Newid Hinsawdd, a arweiniodd at greu Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) (CAHN) a fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Mawrth 2022.

Uchelgais y Cynllun yw - "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Ychwanegwyd yr elfen 'ecolegol gadarnhaol' at y datganiad 'argyfwng newid hinsawdd' gwreiddiol er mwyn cydnabod sefyllfa argyfyngus byd natur yn ogystal, a chan fod y ddwy elfen mor gyd-ddibynnol.

Mae uchelgais y Cynllun yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector gyhoeddus *ar y cyd* fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

Mae ein cynllun yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith o fewn y prif themâu –

- adeiladau ac ynni
- symud a thrafnidiaeth
- gwastraff
- llywodraethu
- caffael
- defnydd tir
- ecoleg

Mae Gwynedd Werdd yn un o 7 maes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028, ac o fewn y flaenoriaeth honno mae yna 7 prosiect, ac mae gweithredu'r CAHN yn un ohonynt. Er hynny, mae pob un o brosiectau Gwynedd Werdd, a nifer o brosiectau eraill Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 yn cyfrannu at brif amcan y CAHN.

Gan mai yn 2022/23 y daeth y CAHN yn weithredol, yr adroddiad blynyddol hwn yw'r cyntaf i'w gyhoeddi sy'n edrych ar yr hyn a gyflawnodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sydd ag aelodaeth o swyddogion ac Aelodau Cabinet a chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu.

# 3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) yn datgan ein uchelgais i fod yn "...ecolegol gadarnhaol erbyn 2030". Un o'r camau y gallwn ei gymryd er mwyn gwireddu hyn yw gweithredu ar gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Tra bod ein safleoedd a'r rhywogaethau a warchodir yn bwysig, mae gofynion Adran 6 yn ymwneud â chymryd camau i warchod natur yn ein trefi, dinasoedd, mannau cyhoeddus a'r dirwedd ehangach, drwy weithredu ymarferol, ac yn y modd y mae'r holl weithredoedd cyhoeddus yn cael eu trefnu.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

**Amcan 1**: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

**Amcan 2**: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

**Amcan 3**: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

**Amcan 4**: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

**Amcan 5**: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

**Amcan 6**: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac annog gwytnwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 hwythau ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu Cynllun Adfer Natur diwygiedig, ond yn y cyfamser rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol yn y CAHN. Tra fod gwarchod natur a bioamrywiaeth wedi ei wau drwy'r CAHN cyfan mae'r adrannau Defnydd Tir ac Ecoleg yn rhestru'r prosiectau fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur


| | Amcan 1 | Amcan 2 | Amcan 3 | Amcan 4 | Amcan 5 | Amcan 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau ac Ynni | | | | | ✓ | |
| Symud a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Gwastraff | ✓ | | | ✓ | | |
| Llywodraethu | ✓ | | | | | ✓ |
| Caffael | | | | | ✓ | ✓ |
| Defnydd Tir | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Ecoleg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# 4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol

Cyn bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd i geisio lleihau ein ôl troed carbon. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Carbon 1 yn 2010 a Chynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015.

Llwyddwyd i gyflawni gostyngiadau sylweddol yn yr allyriadau carbon a gynhyrchir o'n gweithgaredd dydd i ddydd. Drwy fuddsoddi oddeutu £8m mewn mesurau lleihau defnydd ynni dros y ddegawd diwethaf bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 59% yn y meysydd adeiladau, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd a gwastraff.

Gellir gweld y gostyngiad fesul maes yn y graff isod a teg dweud fod ein hymdrechion wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol sawl tro:





## Mesur ein Allyriadau Carbon


Pan oedd y cyngor yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Carbon 1 a 2 roeddem yn dilyn dulliau mesur allyriadau carbon cydnabyddedig y Carbon Trust, ac yn mesur cynnydd mewn 5 maes fel mae'r siart uchod yn ddangos. Bellach, rydym yn dilyn methodoleg mesur allyriadau sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru ac mae amrywiadau bychan rhwng y ddwy drefn felly wrth greu'r CAHN rydym wedi defnyddio data blwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin newydd.

Rydym bellach hefyd yn mesur ein allyriadau carbon mewn meysydd ychwanegol – caffael, cymudo staff, a gweithio o gartref (ers 2021/22). Rydym hefyd yn mesur faint o garbon y mae ein tiroedd yn ei amsugno, ac wrth wrthbwyso'r ffigwr hwnnw yn erbyn cyfanswm yr allyriadau fe gawn ffigwr net, sef y bwlch i gyrraedd sero net. Ein bwlch i sero net yn 2022/23 oedd 17,695 t$CO_2$e.







Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau. Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith, mae'r siart isod yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.





## Ble ydym ni ar y daith o gyrraedd sero net erbyn 2030, ac ydi data 2022/23 yn dangos ein bod ar y trywydd cywir?

Mae'r graff isod yn dangos gostyngiad o 20% yn ein allyriadau caffael rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2022/23. Mae hefyd yn dangos gostyngiad o 34% rhwng 2021/22 a 2022/23 ond er ein bod wedi ymdrechu i gefnogi ein cyflenwyr i leihau eu allyriadau carbon mae'n deg dweud mai newidiadau bychan yn y dulliau mesur sy'n cyfri'n bennaf am y cwymp.




Nodwyd eisoes bod y data ar gyfer allyriadau caffael yn gallu creu darlun amherffaith, ac felly mae'r siart isod yn dangos bod cwymp o 37% yn yr allyriadau ar gyfer y 7 maes arall rhwng 2019/20 a 2022/23.




Y ddau faes sydd wedi gweld cynnydd yn 2022/23 ar y flwyddyn flaenorol yw fflyd a theithio busnes, er mae'r allyriadau yn dal yn is na 2019/20. Roedd rhai cyfyngiadau teithio yn dal mewn grym yn 2021/22 oherwydd Covid-19, ac felly mae'r twf hwn yn seiliedig ar gynnydd mewn niferoedd y teithiau erbyn 2022/23. Rydym bellach wedi cychwyn gweithredu ein Cynllun Fflyd Werdd ar ddiwedd 2022/23 er mwyn rhesymoli maint ein fflyd a pharhau ei drosi i gerbydau trydan. Bydd y gwaith hwn yn ei dro yn dylanwadu ar ein arferion teithio fel staff ac aelodau etholedig gan ein bod hefyd yn adolygu ein defnydd o geir pŵl.

## Strategaeth Llifogydd Lleol

Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad tiroedd oherwydd bod lefelau moroedd yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheolir tir a dŵr.

Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae gofyn i ni adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru (ers y rhai gwreiddiol yn 2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau, pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Rydym angen cwblhau'r dasg yma erbyn Gwanwyn 2024.

# 5. Adeiladau ac Ynni

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau.
2. Dadgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor.
3. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol.
4. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref.
5. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad.
6. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni.
7. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel.

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

8. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE.
9. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o baneli solar i greu ynni adnewyddadwy.
10. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon.
11. Gosod ffaniau awyru EC (*electronically commutated*) mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol.
12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni.

### Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

13. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu.

### Blaenoriaethau Parhaus

14. Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
15. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig.
16. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi.
17. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl.

## Be wnaethom ni?

Mae'r allyriadau carbon o adeiladau ac ynni yn 2022/23 yn 46% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 18% o ostyngiad ers 2019/20.

Mae'r gwaith o wella ffabrig adeiladau er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni (prosiectau 1, 9 & 14) yn waith parhaus sydd wedi bod ar y gweill gennym fel cyngor ers dros ddegawd. Yn ystod 2022/23 fe wnaethom barhau i gynnal a chadw y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud, yn ogystal ag archwilio os fydd angen gwneud unrhyw waith newydd i'r dyfodol.

Rydym yn cynnig cymorth a chyngor i drigolion Gwynedd (prosiect 4) ar sut i arbed ynni ac arian drwy'r cynlluniau Nyth ac Eco 4. Mae ein swyddogion wedi bod yn cynnal sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb yn ein cymunedau yn ogystal ag ateb ymholiadau drwy'r wefan neu dros y ffôn.

Mae gennym systemau canolog ar gyfer rheoli gwres mewn ystafelloedd unigol felly nid ydym yn gweld yr angen i symud ymlaen i osod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol (prosiect 5) ar hyn o bryd. Fe all yr angen hwn newid i'r dyfodol os fydd y prosiect Rhyngrwyd y Pethau (o fewn y Cynllun Digidol) yn dangos bod gwerth ychwanegol i newid y drefn bresennol.

Ers cychwyn y prosiect i gyfnewid lampau stryd (prosiect 6) i oleuadau LED yn 2016/17, mae 17,811 o lampau wedi eu newid erbyn diwedd 2022/23. Rhwng dechrau'r cynllun yn 2016/17 a diwedd 2022/23 gwelwyd ostyngiad o 50% yn ein defnydd o ynni ac 81% o ostyngiad mewn allyriadau carbon.

Ar ddiwedd 2022/23 fe gychwynnodd y cyngor y broses o lunio Cynllun Ynni Lleol (prosiect 7), ac mae'n waith sy'n cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru a chwmni ARUP. Bwriad y Cynllun Ynni Lleol yw creu system ynni carbon isel integredig ar gyfer Gwynedd, gan wella'r isadeiledd presennol fydd yn ei dro yn cefnogi pob sector i drawsnewid eu defnydd presennol o ynni. Mae'r gwaith yn parhau drwy gydol 2023/24 gyda'r nod o gwblhau'r cynllun erbyn diwedd Mawrth 2024.

Yn ystod 2022/23 fe wnaeth Cabinet y cyngor gytuno i neilltuo £2.8m er mwyn cyflawni Gwedd 4 o gynllun i osod paneli solar PV ar eiddo'r cyngor er mwyn cynhyrchu trydan (prosiectau 1 & 9) fydd yn arwain at arbedion ariannol yn ogystal â lleihau allyriadau carbon. Aethpwyd ymlaen i gynllunio'r tendr ac mae'r gwaith wedi cychwyn yn ystod 2023/24.

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Wedi cryn ddifrod gan dân fe fanteiswyd ar y cyfle i ail osod cuddfan gwylio adar bwrpasol ar lan y Fenai, ger Caernarfon. Mae'r guddfan newydd wedi ei chreu drwy ailgylchu ac ail gynllunio hen gludydd llong (*shipping container*) a'i osod mewn safle priodol sy'n hygyrch i bawb er mwyn medru mwynhau golygfeydd godidog tiroedd rhyng-lanw y Fenai.

# 6. Symud a Thrafnidiaeth

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (*ultra low emission vehicles*).
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor
3. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd
4. Lleihau teithio busnes
5. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr

### Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor

### Blaenoriaethau Parhaus

1. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
2. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
3. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
4. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

## Be wnaethom ni?

Mae'r allyriadau carbon o fflyd y cyngor yn 2022/23 yn 24% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 3.5% o ostyngiad ers 2019/20. Mae'r allyriadau carbon o gymudo staff yn 2022/23 yn 17% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 35.5% o ostyngiad ers 2019/20. Mae'r allyriadau carbon o deithio busnes yn 2022/23 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 37% o ostyngiad ers 2019/20.

Bu cryn oedi wrth brynu cerbydau trydan newydd yn ystod 2022/23 oherwydd problemau cyflenwi ar y farchnad ryngwladol, ond erbyn diwedd y flwyddyn roedd gan y cyngor 15 cerbyd trydan ar draws ein fflyd (prosiect 1). Roedd y rhain yn cael eu cynnal gan 23 pwynt gwefru at ddefnydd y fflyd ar draws 8 safle sy'n eiddo i'r cyngor (prosiect 2). Fe ddylai trawsnewid i gerbydau trydan leihau yr allyriadau carbon o'n fflyd gan tua 66%.

Erbyn diwedd 2022/23 roedd gan y cyngor 16 pwynt gwefru i'r cyhoedd yn weithredol mewn 4 lleoliad (Bangor, Pwllheli, Y Bala a Dolgellau), ac roedd 1 pwynt gwefru ychwanegol yn Y Bala yn cael ei reoli gan Trafnidiaeth i Gymru. Rydym fel cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth i Gymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio lleoliadau pwyntiau gwefru cyhoeddus. Roedd nifer llawer uwch o beiriannau wedi eu gosod, ond yn aros i'r cysylltiad trydan gael ei awdurdodi. Mae ein rhaglen bresennol i osod cyfanswm o 114 pwynt gwefru cyhoeddus yn parhau yn ystod 2023/24 a byddwn yn ei hadolygu wrth asesu anghenion y dyfodol (prosiect 3).

Newidiodd lawer o arferion gweithio yn ystod cyfnod Covid-19 ond un arfer sydd wedi parhau gennym yn y cyngor yw cynnal cyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn rhithiol, gan leihau'n sylweddol yr angen i deithio i ganolfannau gwaith. Mae pob un o brif gyfarfodydd y cyngor – Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu, Cynllunio – yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol ac mewn person, ac mae hyn wedi lleihau ein allyriadau o deithio busnes. Wrth i ni gychwyn gweithredu ein Cynllun Fflyd Werdd rydym hefyd wedi dechrau herio'r angen am deithiau busnes, ond bydd newid arferion yn y maes hwn yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf (prosiect 4).

Un o lwyddiannau mawr 2022/23 oedd cyflwyno'r gwasanaeth bysiau Sherpa'r Wyddfa, sef rhwydwaith o wasanaethau bws o amgylch dalgylch yr Wyddfa. Mae'r cyngor yn un o'r partneriaid fu'n datblygu'r ddarpariaeth, a'i nod yw cynyddu opsiynau teithio llesol a lleihau'r problemau parcio mewn mannau poblogaidd yn Eryri (prosiectau 5 & 9). Bydd hyn yn lleihau nifer a phellter siwrneiau mewn ceir personol gan leihau allyriadau carbon Gwynedd fel sir.

Mae trosi'r fflyd o gerbydau trwm i fod yn defnyddio trydan neu hydrogen yn broses hir dymor, ond mae swyddogion y cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar eu prosiect Hwb Hydrogen a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhannu datblygiadau newydd ac arfer dda ymysg awdurdodau lleol (prosiect 6).

Mae gan y cyngor Gynllun Ceir Gwyrdd a Chynllun Beics Gwyrdd ar gael i'r rhan fwyaf o staff, sef cynlluniau aberthu cyflog er mwyn prynu car neu feic trydan newydd. Rydym wedi bod yn annog staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd yma, gan gynnal sawl diwrnod agored er mwyn treialu beiciau trydan. Mae cyfanswm o 376 beic a 128 car trydan neu hybrid wedi eu prynu gan ein staff ers cychwyn y cynllun yn 2013/14.

Rydym hefyd wedi bod yn ymchwilio i'r opsiynau cymudo eraill all fod ar gael i staff, ar wahân i deithio'n unigol mewn car petrol/disel. Byddwn yn datblygu a hyrwyddo'r cynlluniau yma fwyfwy i'r dyfodol (prosiectau 7 & 8).

Mae'r pwynt gwefru ar gyfer fflyd y cyngor yn ei faes parcio yng Nghaernarfon hefyd yn cael ei ddefnyddio drwy gytundeb i wefru car trydan cymunedol o dan ofal y fenter gymdeithasol Deg/Co-wheels (prosiect 10).

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y prosiectau uchod ag amcanion Adran 6.

# 7. Gwastraff

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
2. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
3. Lleihau defnydd papur

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

4. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio (Caffis Trwsio)

### Blaenoriaethau Parhaus

5. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu
6. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu

## Be wnaethom ni?

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2022/23 yn 1% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 96% o ostyngiad ers 2019/20.

Bu 2022/23 yn flwyddyn brysur i'n tîm cefnogi busnesau wrth iddynt gydweithio gyda nifer o fusnesau a mentrau cymdeithasol ar draws Gwynedd a Môn er mwyn ymgeisio am grantiau gan Llywodraeth Cymru er mwyn ymestyn y ddarpariaeth bresennol yn y maes economi gylchol. Ein nod yw annog pobl i ailddefnyddio neu drwsio nwyddau er mwyn lleihau allyriadau carbon fyddai'n deillo o greu eitemau newydd neu waredu gwastraff. Rydym yn parhau i aros am ddyfarniad terfynol ond yn y cyfamser rydym yn hyrwyddo a chefnogi gwaith ein partneriaid – Antur Waunfawr, Partneriaeth Ogwen, Siop Griffiths, Adra (Tŷ Gwyrddfai), BIC Innovation, Menter Môn, MSParc. Mae gwaith mudiadau cymunedol eraill megis GwyrddNi hefyd yn bwysig ac yn gyfraniad gwerthfawr at ymrymuso cymunedau (prosiectau 1, 4, 5 & 6).

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom barhau i osod biniau cyhoeddus sy'n derbyn deunyddiau i'w ailgylchu, ble mae bin unigol gwahanol ar gyfer gwahanol deunyddiau. Gosodwyd 8 set o 4 bin a 7 set o 3 bin mewn 11 leoliad yn ystod 2022/23. Rhaglen waith barhaus yw hon, a bydd rhagor o finiau ailgylchu yn cael eu gosod dros y blynyddoedd nesaf (prosiect 2).

Buom yn adolygu ein defnydd mewnol o bapur yn swyddfeydd y cyngor yn ystod y flwyddyn, ac roedd y galonogol bod y defnydd wedi parhau llawer yn is nag yr oedd cyn cyfnod Covid-19. Mae'r asesiad hwn wedi arwain at newid arferion argraffu, ac erbyn 2023/24 ni fyddwn yn argraffu papurau ar gyfer cyfarfodydd oni bai bod yna eithriad rhesymol dros wneud (prosiect 3).

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Wrth ddatblygu'r cynlluniau sy'n rhan o'r cais grant i hyrwyddo economi gylchol fe fuom yn ymgynghori'n barhaus gyda'n holl bartneriaid cymunedol, ac mae swyddogion ar sawl lefel o fewn y cyngor wedi bod yn ystyried effaith y prosiect ar fioamrywiaeth cyn datblygu'r cynllun terfynol.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae blaenoriaethau 4, 5 a 6 uchod yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 gan fod ein hybiau bwyd a gerddi cymunedol wedi asesu eu dylanwad ar fioamrywiaeth, a'u datblygu mewn modd na fydd yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas.

# 8. Llywodraethu

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
2. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

3. Aelodau etholedig a staff sydd:
   - yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
   - yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
   - yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol

### Blaenoriaethau Parhaus

4. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol
5. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad

## Be wnaethom ni?

Mae prinder adnoddau wedi golygu ein bod wedi blaenoriaethu amser ac adnoddau ar leihau yr allyriadau carbon sy'n deillio'n uniongyrchol o'n gweithgarwch ni ein hunain fel Cyngor yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Nid yw hyn wedi golygu, er hynny, nad ydym wedi bod yn ymgysylltu a chefnogi ein cymunedau a'n trigolion er mwyn i bawb chwarae ei ran ar y daith i sero net.

Mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd drwy'r cynllun Ardal Ni wedi amlygu bod materion hinsawdd a natur o flaenoriaeth uchel i drigolion ymhob ardal, ac rydym yn parhau i gefnogi'r cymunedau gyda'u cynlluniau gweithredu. Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn hefyd yn ymgynghori â chymunedau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r gwaith hwnnw wedi arwain at lunio Cynllun Llesiant newydd sydd wedi dod i rym yn ystod 2023/24 (prosiect 1). Un o 3 Amcan Llesiant y cynllun newydd yw "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon".

Gweler hefyd yr adroddiad o dan y pennawd 'Gwastraff'.

Mae ein prosiectau eraill ninnau fel cyngor hefyd yn cyfrannu at helpu a dylanwadu ar arferion trigolion – Cymunedau Glan a Thaclus, cefnogi hybiau bwyd, Ffiws/Caffi Trwsio, sioeau teithiol arbed ynni (prosiectau 1 & 2).

Mae'r gwaith o adolygu polisïau a strategaethau presennol (prosiect 5) wedi amlygu bod angen addysgu a hyfforddi staff ac aelodau er mwyn deall a gweithredu newidiadau i'r polisïau hynny. Buom yn cynllunio ein anghenion hyfforddiant yn ystod 2022/23, ac mae hyfforddiant llythrennedd carbon wedi ei gynnal yn ystod 2023/24 (prosiect 3).

## Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Gwaith wedi cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o dan blaenoriaethau 3 a 5 yn cyfrannu at wireddu Amcanion 1 a 6.

# 9. Caffael

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Parhaus

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl troed carbon
2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

## Be wnaethom ni?

Ar ddiwedd 2022/23 fe gyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad a phecyn cymorth at ddefnydd awdurdodau lleol er mwyn iddynt geisio ymgorffori caffael cynaliadwy ymhellach i arferion dyddiol. Bu cryn aros am y pecyn fel adnodd fyddai'n gymorth i ni fel cyngor fesur yr allyriadau carbon sy'n deillio o'r gwasanaethau a'r deunyddiau yr ydym yn eu prynu, ac mae'n gam cychwynnol ar y daith honno.

Yn dilyn cyhoeddi'r pecyn cymorth rydym bellach yn cydweithio â WRAP Cymru er mwyn adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy ac i ymchwilio i gymorth pellach er mwyn lleihau allyriadau ein cytundebau mwyaf o ran gwerth ariannol (megis bwyd a gofal).

Roedd 61% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2022/23 yn deillio o'n prosesau caffael, oedd yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol ble roedd y cyfanswm yn 72%. Mae'n rhaid cydnabod mai newidiadau mewn dulliau cyfrifo sy'n bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn, ond buom hefyd yn parhau i gefnogi ein cyflenwyr ar eu taith hwythau i fod yn sero net drwy hyrwyddo gwasanaethau Busnes Cymru a chynnig cyngor ein hunain.

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Wrth i ni adolygu ein Polisi Caffael Cynaliadwy, a derbyn cyngor gan WRAP Cymru ar sut y gallwn leihau allyriadau carbon drwy'r cytundebau y byddwn yn eu gosod, byddwn yn adolygu'r canllawiau presennol i gyflenwyr ar sut y gallant warchod a hyrwyddo bioamrywiaeth.

.

# 10. Defnydd Tir

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru
5. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

### Blaenoriaethau Parhaus

6. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
7. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur

## Be wnaethom ni?

Yn ystod 2022/23 buom yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar 8 safle o goetir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac yn hyfforddi'n staff i ddefnyddio'r offer diweddaraf i fesur cyfaint coed er mwyn mesur eu gwerth carbon (prosiect 1 & 7). Plannwyd coed newydd mewn 4 allan o'r 8 safle, ac mae cais wedi ei gyflwyno i safle Parc Dudley yn y Waunfawr dderbyn cydnabyddiaeth fel safle Coedwig Genedlaethol Cymru (prosiect 4).

Yn ogystal â'r coetiroedd uchod, rydym hefyd wedi plannu neu ail-blannu coed ar strydoedd ym Mhwllheli, Porthmadog, Tremadog a Chricieth. Bydd angen parhau gyda thrafodaethau â phartneriaid er mwyn asesu potensial i sefydlu meithrinfeydd coed (prosiect 3).

Rydym yn aros yn eiddgar am becyn cymorth newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn mesur gwerth carbon mewn gwahanol diroedd. Fe ddylai fod ar gael yn ystod 2023/24, a bydd yn gymorth i ni nid yn unig er mwyn mesur capasiti amsugno carbon ein gwahanol diroedd ond hefyd i gynllunio defnydd ein tiroedd i'r dyfodol (prosiect 2).

Yn anffodus mae'r galw i ymdrin â nifer gynyddol o goed sy'n dioddef o Glwy yr Onnen yn rhoi rhagor o bwysau ar ein adnoddau prin. Er hynny, rydym yn parhau i ymateb i achosion sy'n codi ac yn mapio ble y mae'n bosib i ail blannu (prosiect 6).

**Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Yn dilyn ymholiadau gan Gynghorau Tref fe wnaeth y Bartneriaeth Natur eu cynorthwyo efo darparu prosiectau a fyddai yn eu galluogi i gydymffurfio efo gofynion Adran 6, Dyletswyddau Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Llywodraeth Cymru.

Plannwyd coedlannau newydd efo cymorth ysgolion lleol, crëwyd perllannau newydd ac fe gafodd darnau helaeth o laswelltiroedd eu troi yn gynefinoedd er budd bioamrywiaeth.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae Cyfeillion Wern Mynach yn griw hynod o weithgar sy'n cynnal a gwarchod darn o dir ar gyrion tref Abermaw. Darn o dir a oedd eisoes yn hen safle gwastraff, ond bellach gyda gwaith caled y gwirfoddolwyr mae'r safle wedi ei weddnewid er budd bioamrywiaeth a'r gymuned.

Mae yna wastad '*rhywbeth yn digwydd'* yn Wern Mynach a gyda buddsoddiad gan y Bartneriaeth Natur cafwyd cyfle i ddatblygu'r safle ymhellach drwy greu pwll dŵr ac ardal wlyb er gyfer ymlusgiaid a pheillwyr ynghyd â gweithgareddau plannu ac addysgu. Mae wastad yn bleser cydweithio efo'r criw gan eu bod mor frwdfrydig am eu gwaith ac hefyd yn cyfrannu cymaint i'r gymuned leol.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae gwirfoddolwyr Gardd Gymunedol yr Heliwr yn Nefyn wedi bod wrthi yn trawsnewid darn o dir a oedd wedi ei 'lygru' gan rywogaethau ymledol i fod yn gyrchfan boblogaidd i'r gymuned leol. Wrth ddod at ei gilydd i rannu cyfeillgarwch mae llu o wirfoddolwyr wedi creu gardd brysur a phoblogaidd lle y tyfir amrywiaeth o lysiau a chnydau, ac y mae hefyd yn adnodd hwylus o ran mynediad lle y cynhelir nifer o weithdai ar y safle er budd iechyd a lles trigolion lleol.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae pob un o'r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu at Amcanion 2, 3 a 4.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Mae ein gwaith ar flaenoriaeth 6 yn tynnu ar dystiolaeth a chofnodion, ond mae'r holl waith cynnal coetiroedd yn seiliedig ar dystiolaeth a monitro rheolaidd.

.

# 11. Ecoleg

## Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23?

### Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer

### Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd (safleoedd tirlenwi)
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur

### Blaenoriaethau Parhaus

5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

## Be wnaethom ni?

Fe wnaethom agor ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2022/23 er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd am fyd natur o'u cwmpas a'r mynediad sydd ganddynt i'r amgylchedd naturiol yn lleol. Fe wnaeth canlyniadau'r ymgynghoriad ein helpu i lunio ein Cynllun Adfer Natur diwygiedig, a bydd y cynllun hwnnw yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2023/24. Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Adfer Natur, rydym hefyd wedi bod yn asesu bioamrywiaeth y gwarchodfeydd natur yr ydym yn berchen arnynt er mwyn sefydlu gwaelodlin y gallwn fesur cynnydd neu ddirywiad yn ei erbyn (prosiectau 1 & 2).

Mae yna ddau safle yng Ngwynedd arferai fod yn safleoedd tirlenwi sydd bellach wedi eu trosi yn safleoedd i warchod a hyrwyddo natur. Cafodd gwaith cynnal a chadw a phlannu coed ei wneud yn Llwyn Isaf ger Clynnog a Ffridd Rasus ger Harlech yn ystod y flwyddyn, ac mae ffrwyth y gwaith a wnaethpwyd yn ystod 2022/23 wedi dod yn amlwg erbyn haf 2023 (prosiectau 3 & 6). Mae'r safle bellach yn amsugno mwy o garbon nag yr oedd cyn cael ei drawsnewid, ac mae'r coed a phlanhigion yn hafan i fyd natur. Mae'r ddwy safle hefyd wedi derbyn 'safon aur' gan Restor, yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur.

Bu 2022/23 hefyd yn flwyddyn brysur iawn wrth i ni baratoi ein tiroedd am ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol i Lŷn fis Awst 2023. Fe gymerodd holl ysgolion cynradd bro'r Eisteddfod ran yn ein prosiect i blannu dolydd blodau gwyllt ac fe fu timoedd

priffyrdd y Cyngor yn plannu dolydd blodau gwyllt ar hyd ymylon ffyrdd tuag at ardal Pwllheli, ac fe fyddwn yn parhau i asesu a chynnal y dolydd hyn i’r dyfodol (prosiectau 3 & 5).

Mae’n waith parhaus i gadw a chynnal ein gwarchodfeydd natur, ond yn ystod 2022/23 buom yn uwchraddio’r cyfleusterau yn Morfa Madryn ger Llanfairfechan er mwyn gosod llwybrau mynediad hygyrch, sydd wedi agor y warchodfa i ragor o’n trigolion. Fe wnaethom hefyd osod cysgodfan gwylio adar newydd (o hen gynhwysydd llongau) yn y Foryd ger Caernarfon (prosiectau 5 & 6).

### Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Mae’r holl waith yr ydym fel Cyngor yn ymgymryd ag o drwy’r Bartneriaeth Natur Lleol yn cael ei gynllunio neu ei ddarparu ar y cyd â sefydliadau, cymunedau neu ysgolion lleol.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Llŷn ac Eifionydd yn griw gweithgar sydd nid yn unig yn casglu mel o dros 100 o gychod gwenyn yn lleol ond hefyd yn gweithio yn galed i hyrwyddo rhywogaeth y Wenynen Ddu Gymreig yma yng Ngwynedd. Mae gan y gymdeithas bellach adnoddau newydd, gan gynnwys deunydd addysgol newydd, cychod gwenyn arddangos pwrpasol ac hefyd offer newydd er mwyn cynhyrchu mel o safon. Mi fydd hyn yn eu galluogi i hyrwyddo eu cymdeithas yn lleol, ynghyd â sicrhau fod rhywogaeth y Wenynen Ddu Gymreig yn cael ei diogelu a’i gwarchod yma yng Ngwynedd.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi’u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae pob un o’r blaenoriaethau uchod yn cyfrannu at Amcanion 2, 3 a 4.

# 12. Camau Nesaf

### Ariannol

Mae chwyddiant yn effeithio ar gost cyfalaf pob cynllun buddsoddi ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn golygu fod yr arbedion o leihau ein defnydd o ynni hefyd yn uwch. Er hyn, mae'n anodd iawn proffwydo beth fydd costau ynni o fis i fis, ac mae hynny'n wir am chwyddiant mewn costau cyfalaf hefyd. Yr hyn sydd yn glir ydi fod ein cyllidebau ein hunain wedi eu taro'n aruthrol gan amgylchiadau economaidd cenedlaethol a tebyg y bydd hynny'n ein gadael mewn sefyllfa lle bydd ein dyhead i fuddsoddi yn y maes hwn yn gorfod cystadlu yn erbyn ein dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau craidd i drigolion Gwynedd.

### Ynni adnewyddol

Mae cynhyrchu ein ynni ein hunain nid yn unig yn golygu llai o ddibyniaeth ar ddefnyddio trydan o'r grid (sy'n annhebygol o fod yn garbon sero net am flynyddoedd maith, os o gwbl) ond hefyd yn cynnig ychydig o sicrwydd ynni i ni yn lleol. Yn anffodus, nid oes cydnabyddiaeth yn cael ei roi i ni fel sefydliad os ydym yn cynhyrchu trydan i'w allforio i'r grid ac nid ydym yn gallu hawlio'r credyd carbon amdano. Yn ogystal â hyn, mae'r isadeiledd yn wael ar gyfer anfon trydan i'r grid o ffynonellau adnewyddol yn yr ardal hon e.e. byddai angen buddsoddiad o filiynau o bunnoedd er mwyn gallu defnyddio rhai o'n tiroedd ar gyfer sefydlu ffermydd solar. Ar hyn o bryd, felly, nid yw cynhyrchu trydan ar raddfa fasnachol o ffynonellau adnewyddol am fod o gymorth i'n uchelgais i fod yn garbon sero.

Wedi dweud hynny, mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid sirol, yn datblygu Cynllun Ynni Ardal Lleol fydd yn gosod sylfaen i ddatblygu system ynni garbon isel i Wynedd er budd trigolion, diwydiant a thrafnidiaeth. Bydd rhaid aros i weld pa brosiectau fydd y cynllun yn eu argymell, a pha adnoddau fydd ar gael i'w gwireddu.

Tud. 38

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 30 Tachwedd 2023 |
| **Teitl** | Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Pwrpas** | Mae’n ofynnol i’r Cyngor lunio Strategaeth Llifogydd Lleol erbyn Hydref 2023. Mae'r gwaith wedi ei ddyrannu fel risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol. |

## 1. Cyflwyniad

Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad gan i lefelau môr fod yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

Mae’r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac mae’r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. Bydd y Strategaeth Llifogydd Lleol a’r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg, ac yn helpu i wireddu targedau'r naill a’r llall.

Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheoli’r tir a dŵr.

Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae’n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Mae gofyn i ni adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru (er y rhai gwreiddiol yn 2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Rydym angen cwblhau'r dasg yma erbyn Gwanwyn 2024.

## 2. Cefndir a’r Sefyllfa Bresennol

Yn Hydref 2022, fe rannwyd gyda’r Pwyllgor y bwriad o ystyried risgiau mewndirol ac arfordirol ar wahân o fewn y Strategaeth newydd. Mae hyn oherwydd; natur y risg a’r gallu i’w liniaru; gwahaniaeth mewn rolau/cyfrifoldebau statudol a goddefol, polisïau a strategaethau (gan gynnwys rhai asiantaethau eraill) ynghyd a gwahaniaethau yn strwythur ariannu prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Yr ydym wedi datblygu tablau sydd yn crynhoi y risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol i’n cymunedau yn Atodiadau A a B.

## 3. Trefniadau/Gweithdrefnau Newydd

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi datblygu'r Strategaeth ymhellach, a hynny yn gyson gyda'r fframwaith a chyfarwyddyd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen yn trafod rolau a chyfrifoldebau gwahanol awdurdodau i reoli bygythiad llifogydd; hanes llifogydd ar draws Wynedd a'r bygythiad o lifogydd ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd, a hefyd yr hyn mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud o fewn eu pwerau er mwyn rheoli'r bygythiadau yma (rhestr wedi ei grynhoi yn Atodiad C).

Yn sail i'r ddogfen dros y blynyddoedd nesaf mae 5 brif amcan, a rhestr o weithredoedd sy'n adeiladau ar ein dulliau rheoli risg llifogydd presennol (Atodiad C) er mwyn cwrdd â'r amcanion yma.

Amcanion y Strategaeth ydi:

**Amcan 1**: Anelu at leihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd

**Amcan 2**: Datblygu dealltwriaeth bellach o'r perygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd

**Amcan 3**: Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd

**Amcan 4**: Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol

**Amcan 5**: Gweithio ar y cyd â'r holl Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae rhestr o'r gweithredoedd sy'n berthnasol i bob amcan, ynghyd a disgrifiad byr, wedi ei gynnwys yn Atodiad Ch.

Un o'r prif weithredoedd sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth yw ein bwriad o baratoi rhaglenni gwaith cyfalaf hîr-dymor ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol, wedi eu rhannu yn rhaglenni mewndirol ac arfordirol fel eglurwyd eisoes. Y bwriad yw diweddaru'r rhaglenni gwaith yma yn flynyddol a'u defnyddio er mwyn ethol cynlluniau ac astudiaethau i'w cynnwys ar y rhaglen rheoli risg llifogydd cenedlaethol. Mae'r broses o adnabod a hyrwyddo cynlluniau wedi ei grynhoi yn Atodiad D.

Mae'r Strategaeth yn egluro y bydd y rhaglenni yn cael eu llunio yn bennaf yn ôl lefel y perygl o lifogydd/erydu arfordirol, ond y bydd ffactorau eraill megis cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor a'n gallu i wireddu cynlluniau hefyd yn dylanwadu.

Er ein bod yn cydnabod mai Cyngor Gwynedd yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer y cynlluniau a'r astudiaethau bydd wedi'u cynnwys ar ein rhaglenni, rydym yn rhagweld y bydd rhai prosiectau penodol yn golygu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill ac yn cyfarch cyfleoedd o'r fath.

**4. Materion sydd wedi codi o'r Pwyllgor blaenorol**

Codwyd y mater o reoli y draethlin yng nghyfarfod Hydref 2022, a'r angen i wneud hyn heb gynyddu risg llifogydd i ardaloedd cyfagos.

Rhaid derbyn fod yr arfordir yn ardal ddynamig iawn ac mae stormydd a newidiadau mewn patrymau drifft yn gallu amharu yn fawr ar y strwythurau sydd mewn lle yn hanesyddol er mwyn cynnal ac amddiffyn ein harfordir. Mae'r arfordir yn cael ei fonitro yn rheolaidd gan y Cyngor, bod hyn drwy asesiad rheolaidd o gyflwr ein hasedau neu drwy fonitro lefel ein traethau fel rhan o'r rhaglen fonitro genedlaethol. O ganlyniad i hyn rydym yn ymwybodol o'r risgiau a'r bygythiadau ar hyd yr arfordir dros amser, e.e. mae lefel y traeth isel yn bresennol ar hyd rhannau o draethau Tywyn, Bermo a Criccieth, a gall hyn olygu fod bygythiad i sefydlogrwydd strwythurau megis waliau ar gefn y traethau yma.

Yn y lleoliadau fwyaf bregus (er enghraifft Bermo, Criccieth a Pwllheli) mae astudiaethau ar y gweill a wnaiff arwain at gynlluniau i reoli'r risgiau yma ar gyfer y dyfodol yn y modd fwyaf cynaliadwy bosib a hynny heb effeithio yn niweidiol ar rannau cyfagos o'r arfordir. Y gobaith ydi dros amser y bydd ein rhaglen waith yn ehangu er mwyn cynnig gwell sicrwydd i sawl gymuned arfordirol arall a hefyd i barhau i gynnal mynediad at y draethlin sydd mor bwysig i lesiant a budd economaidd, ac y bydd y strategaeth newydd yn cynnig fframwaith i alluogi hyn.

Yn ogystal a bygythiadau sy'n gysylltiedig a lefel isel y tywod ar ein traethau mae rhai ardaloedd (Aberdyfi, prif draeth Bermo) lle mae tywod yn bresennol yn uwch nag o'r blaen, sy'n achosi trafferthion gwahanol wrth i dywod atal mynediad tuag at y môr a hefyd achosi niwsans tu hwnt i'r traeth. Mae problemau o'r fath hefyd yn cael eu cydnabod gan y Cyngor a rydym yn awyddus i ganfod ymateb hir-dymor a chynaliadwy ar gyfer y sefyllfaoedd yma.

**5. Camau Nesaf**

Y camau nesaf bydd cwblhau drafft dwyieithog cyflawn o'r ddogfen ynghyd a'r adroddiadau cysylltiedig â chynnal ymarfer ymgysylltu yn fuan yn y flwyddyn newydd. Bydd rhaglenni gwaith cyfalaf cychwynnol (mewndirol ac arfordirol) yn cael eu cynnwys fel atodiadau i'r brif ddogfen. Mae rhaglen amlinellol islaw, ond gall yr amserlen newid yn ddibynnol ar y broses ymgynghori.

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r Pwyllgor Craffu | 30 Tachwedd, 2023 |
| Ymgynghori a'r y Strategaeth | Ionawr/Chwefror 2024 |
| Mabwysiadau'r Strategaeth | Gwanwyn 2024 |

## ATODIAD A - Risgiau Mewndirol/Dalgylchol

| Dalgylch | Cymunedau | Nifer o dai o dan risg ( yr erbyn cyfnodau dychwelyd) | | | | | Nifer o asedau allweddol o dan risg (eithrio tai) | Cyfanswm archwiliadau llifogydd yn y dalgylch | Sefydliad arweiniol | Prosiectau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Uchel (1:30) | Canolig (1:100) | Isel (1:1000) | Isel iawn (1:1000 + NH) | | | | |
| **Adda-Cegin** | Bangor<br>Penrhosgarnedd<br>Glasinfryn<br>Minffordd<br>Pentir<br>Rhiwlas<br>Sling | **365** | 13 | 73 | 136 | 143 | **83** | **26** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |
| | | | | | | | | | Cyngor Gwynedd | Cynllun Atal Llifogydd Hirael |
| **Corris** | South Tywyn<br>Aberdyfi<br>Pennal<br>Corris<br>Dinas Mawddwy<br>Mallwyd<br>Aberllefenni | **247** | 76 | 30 | 91 | 50 | **43** | **15** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |
| **Dwyfor** | Chwilog<br>Cwm Pennant<br>Garndolbenmaen<br>Criccieth<br>Morfa Bychan<br>Bryncir<br>Pant Glas | **107** | 26 | 15 | 29 | 37 | **43** | **23** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |
| **Dwyryd** | Blaenau Ffestiniog<br>Llan Ffestiniog<br>Gellilydan<br>Llandecwyn<br>Penrhyndeudraeth<br>Harlech<br>Trawsfynydd | **662** | 71 | 116 | 346 | 129 | **120** | **30** | Cyngor Gwynedd | **Prosiect Dalgylch Blaenau-** |
| | | | | | | | | | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfrdwy** | Bala<br>Llanuwchllyn<br>Llandderfel<br>Frongoch<br>Talardd<br>Llanfor<br>Glan Yr Afon | **712** | 95 | 24 | 531 | 62 | **237** | **5** | Cynllun yn cael ei datblygu - bydd y sefydliad arweiniol yn cael ei amlygu i'r dyfodol. | Cynlluniau posib ar y cyd rhwng CNC a Pharc Cenedlaethol Eryri |
| **Dysynni** | North Tywyn<br>Bryncrug<br>Llwyngwril<br>Abergynolwyn<br>Llangelynnin<br>Tal Y Llyn<br>Rhyd Yr Onen | **341** | 127 | 51 | 104 | 59 | **87** | **9** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |
| **Glaslyn** | Nant Gwynant<br>Beddgelert<br>Nantmor<br>Tremadog<br>Porthmadog<br>Croesor<br>Borth Y Gest | **859** | 48 | 53 | 146 | 612 | **190** | **30** | CNC / Cyngor Gwynedd<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | **Gwaith Adfer Argyfwng Beddgelert**<br>**Cynllun Atal Llifogydd Tremadog**<br>**Cynllun Atal Llifogydd Porthmadog** |
| **Gwyrfai** | Llanfaglan<br>Caeathro<br>Bontnewydd<br>Waunfawr<br>Betws Garmon<br>Ceunant<br>Rhyd Ddu | **0** | 22 | 20 | 69 | 20 | **58** | **40** | Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Gwynedd | **Cynlluniau Atal Llifogydd Dalgylch Gwyrfai** - Achos Busnes Amlinellol wedi ei basio i LLC yn 2022.<br>**Cynllun Atal Llifogydd Bontnewydd**. |
| **Llanbedr** | Llanfair<br>Llanbedr<br>Llanddwywe<br>Dyffryn Ardudwy<br>Llanaber<br>Abermaw<br>Bontddu | **286** | 67 | 37 | 123 | 59 | **50** | **20** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llyfni** | Penygroes<br>Rhostryfan<br>Nantlle<br>Talysarn<br>Pontllyfni<br>Llanllyfni<br>Aberdesach | **453** | 175 | 58 | 122 | 98 | **63** | **91** | Cyngor Gwynedd | **Cynllun Atal Llifogydd Rhostryfan**- Cynllun gwerth £2m wedi ei gwblhau a manylion wedi trosglwyddo i CNC i addasu gwybodaeth ar eu mapiau. |
| **Mawddach-Wnion** | Dolgellau<br>Fairbourne<br>Brithdir<br>Ganllwyd<br>Llanfachraeth<br>Arthog<br>Llanelltyd | **972** | 50 | 25 | 659 | 238 | **314** | **8** | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Cynllun Atal Llifogydd Dolgellau** |
| **Ogwen** | Llandygai<br>Tal Y Bont<br>Abergwyngregyn<br>Tregarth<br>Bethesda<br>Mynydd Llandegai<br>Rachub | **393** | 44 | 36 | 247 | 66 | **68** | **85** | Cyngor Gwynedd | **Cynlluniau Atal Llifogydd Dyffryn Ogwen** - Achos Busnes Amlinellol wedi ei basio i LLC yn 2022. |
| **Penllyn** | Aberdaron<br>Botwnnog<br>Abersoch<br>Mynytho<br>Tudweiliog<br>Nefyn<br>Morfa Nefyn | **217** | 36 | 40 | 113 | 28 | **58** | **61** | Cyngor Gwynedd | Nifer o brosiectau bychan ar waith o fewn y dalgylch. |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyd Hir-Erch** | Pencaenewydd<br>Llangybi<br>Y Ffor<br>Llannor<br>Efailnewydd<br>Pwllheli<br>Boduan | **425** | 44 | 66 | 225 | 90 | **156** | **57** | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Cynllun Atal Llifogydd Pwllheli**. |
| | | | | | | | | | | |
| **Seiont** | Nant Peris<br>Llanberis<br>Deiniolen<br>Llanrug<br>Bethel<br>Caernarfon<br>Felinheli | **786** | 181 | 67 | 276 | 262 | **297** | **178** | Cyngor Gwynedd | **Cynllun Atal Llifogydd Llanberis** - Cynllun £1.5m wedi ei gwblhau mae'r data yn cael ei asesu gan CNC i adlewyrchu budd y cynllun ar y mapiau. |
| | | | | | | | | | Cyngor Gwynedd | **Prosiect Cadnant** - Achos Busnes Cyfiawnhad wedi ei gyflwyno i LLC yn ddiweddar. |

**<u>Amlinelliad o gynnwys y Tabl</u>**.

**<u>Colofn 1;</u>**
**<u>Dalgylch</u>**

Mae Gwynedd wedi ei rhannu yn 15fed dalgylch afonol.

**<u>Colofn 2;</u>**
**<u>Cymunedau</u>**

Ein cymunedau sylweddol sydd o fewn pob dalgylch.

**<u>Colofn 3,4,5,6;</u>**
**<u>Nifer o dai dan risg</u>**

Mae'r wybodaeth creiddiol yma o fapiau Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn creu ardal/haen ar fap i adlewyrchu'r ardaloedd sydd â phosibilrwydd o gael ei llifogi gan ddigwyddiad sydd â difrifoldeb a ffyrnigrwydd gallwn ei ddisgwyl unwaith pob 30 mlynedd, 100 mlynedd ac uwch.

**Colofn 7;**
**Nifer o asedau allweddol dan risg (eithrio tai)**

Tebyg iawn i'r colofnau uchod ond y tro yma yn cynnwys asedau heblaw am dai, er enghraifft canolfannau hamdden, meddygfeydd, ysgolion ayyb.

**Colofn 8;**
**Archwiliadau Llifogydd**

Mae gofyn statudol i ni fel Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol i ymchwilio i mewn i achosion o lifogydd a dan Adran 19 o’r ddeddf 'Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010'. Mae’r wybodaeth yma yn ddefnyddiol i wirio’r wybodaeth ddamcaniaethol a sicrhau fod digwyddiadau nad oeddynt wedi rhagweld yn cael sylw priodol.

**Colofn 9;**
**Sefydliad Arweiniol**
Hunan esboniadwy.

**Colofn 10;**
**Prosiectau**
Crynodeb o brosiectau diweddar neu rai sydd ar y gweill i leihau risgiau llifogydd ac erydiad.

**ATODIAD B - Risgiau Arfordirol**

| Ardal Rheolaethol | Cymunedau | Nifer o dai o dan risg (yn erbyn cyfnodau dychwelyd) | | | | | Nifer o asedau allwed dol o dan risg (eithrio tai) | Nifer o dai dan fygythiad erydiad, a'r nifer o dai sydd wedi amddiffyn (**) | Adluniad rheolaethol? (EP1/2) | | Sefydliad arweiniol | Prosiectau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Uchel (1:30) | Canolig (1:200) | Isel (1:1000) | Isel iawn (1:1000 + NH) | | | | | | |
| 19 | Pennal<br>Corris | **1** | **1** | **0** | **0** | **0** | **1** | **0 (0)** | **Pennal** | **Na** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Corris** | **Na** | | " |
| 20 | Bryncrug<br>Tywyn<br>Aberdyfi | **229** | **154** | **32** | **43** | **0** | **45** | **138 (138)** | **Tywyn** | **Ia** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Aberdyfi** | **Ia** | Cyngor Gwynedd | **Adnewyddu Cei Aberdyfi** - Cynllun oedd werth £4m wedi ei gwblhau eleni |
| | | | | | | | | | **Tonfannau** | **Ia** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Pennal** | **Ia** | | " |
| 21 | Llwyngwril | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0 (0)** | **Llwyngwril** | **Ia** | | Dim gweithred |
| 22 | Fairbourne<br>Arthog<br>Friog | **481** | **0** | **10** | **429** | **42** | **50** | **Dim data ar gael** | **Fairbourne** | **Ia** | CNC/ Cyngor Gwynedd | Cynlluniau penodol aml-asiantaethol yn parhau. |
| | | | | | | | | | **Arthog** | **Ia** | | |
| | | | | | | | | | **Friog** | **Ia** | | |
| 23 | Llanelltyd<br>Pen Y Bryn<br>Bontddu<br>Penmaenpool | **51** | **25** | **1** | **5** | **20** | **12** | **0 (0)** | **Llanelltyd** | **Ia** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Pen-Y-Bryn** | **Ia** | | " |
| | | | | | | | | | **Bontddu** | **Ia** | | " |
| | | | | | | | | | **Penmaenpool** | **Na** | | " |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | Abermaw | **524** | **15** | **7** | **302** | **200** | **107** | **0 (0)** | **Abermaw** | **Ia** | Cyngor Gwynedd | **Prom y Gogledd Abermaw** – Dylunio manwl ar waith **Viaduct Gardens Abermaw** - Dyluniad manwl i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, gyda'r bwriad o gychwyn y gwaith yn 2024. |
| 25 | Talybont Dyffryn Ardudwy | **2** | **0** | **1** | **0** | **1** | **10** | **4 (4)** | **Talybont** | **Ia** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Dyffryn Ardudwy** | **Na** | | " |
| 26 | Llanbedr Pen-sarn Llandanwg | **38** | **1** | **9** | **2** | **26** | **22** | **5 (5)** | **Llanbedr** | **Ia** | CNC | **Cynllun Strategol Ardal Llanbedr** - CNC yn edrych yn strategol ar yr ardal. |
| | | | | | | | | | **Pen-sarn** | **Ia** | | Gweler Uchod |
| | | | | | | | | | **Llandanwg** | **Ia** | | Gweler Uchod |
| 27 | Penrhyndeudraeth Maentwrog Llandecwyn Talsarnau Harlech | **118** | **2** | **25** | **91** | **0** | **20** | **2 (2)** | **Harlech** | **Na** | | I'w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Talsarnau** | **Ia** | | " |
| | | | | | | | | | **Ynys** | **Ia** | | " |
| | | | | | | | | | **Maentwrog** | **Ia** | | " |
| | | | | | | | | | **Penrhyndeudraeth** | **Na** | | " |
| | | | | | | | | | **Glan Y Wern** | **Ia** | | " |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | Porthmadog<br>Morfa Bychan<br>Borth Y Gest | **1797** | **24** | **10** | **1274** | **489** | **459** | **51 (51)** | **Porthmadog** | **Na** | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Asesiad Strategol Porthmadog** - Mae CNC yn gweithio ar brosiect i ganfod datrysiadau rheoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer ardal Porthmadog, ochr yn ochr â chyflwyno cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. |
| | | | | | | | | | **Morfa Bychan** | **Ia** | | Gweler Uchod |
| | | | | | | | | | **Borth Y Gest** | **Na** | Cyngor Gwynedd | **Borth Y Gest** - Mae'r cynllun yma oedd werth £325k wedi ei gwblhau gyda her ddata CNC wedi ei gyflwyno ddiwedd 2022. |
| 29 | Criccieth<br>(Dwyrain) | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2** | **50 (48)** | **Cricieth (Dwyrain)** | **Na** | Cyngor Gwynedd | **Cynnal a Chadw Asedau Cricieth** - Gwaith cynnal a chadw ar asedau arfordirol, yn bennaf y prif grwyn ger Dylan's. |
| 30 | Afon Wen<br>Criccieth<br>(Gorllewin) | **1** | **0** | **0** | **0** | **1** | **0** | **78 (78)** | **Afon Wen** | **Ia** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Cricieth (Gorllewin)** | **Na** | Cyngor Gwynedd | **Achos Busnes Amlinellol Cricieth** - Fe gyflwynwyd yn 2021 ond yn debygol y bydd angen gwneud gwaith pellach oherwydd maint y gwaith ar angen i ymestyn y sgôp o'r gwreiddiol. |
| | Pwllheil<br>Abererch | **1456** | **5** | **20** | **1047** | **384** | **441** | **1 (1)** | **Pwllheli** | **Ia** | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Asesiad Strategol Pwllheli** - Mae CNC yn gweithio ar brosiect i ganfod |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 31 | Penrhos Llanbedrog | | | | | | | | | | | datrysiadau rheoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer ardal Pwllheli, ochr yn ochr â chyflwyno cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. |
| | | | | | | | | | **Abererch** | **Ia** | | Gweler Uchod |
| | | | | | | | | | **Penrhos** | **Ia** | | Gweler Uchod |
| | | | | | | | | | **Llanbedrog** | **Na** | | Gweler Uchod |
| 32 | Abersoch | **58** | **13** | **3** | **20** | **22** | **22** | **13 (13)** | **Machroes** | **Ia** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Abersoch** | **Ia** | | " |
| 33 | Llanengan | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0 (0)** | **Llanengan** | **Na** | | Dim gweithred |
| 34 | Botwnnog | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0 (0)** | **Botwnnog** | **Na** | | Dim gweithred |
| 35 | Uwchmynydd | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0 (0)** | **Uwchmynydd** | **Na** | | Dim gweithred |
| 36 | Aberdaron | **8** | **0** | **0** | **1** | **7** | **7** | **29 (29)** | **Aberdaron** | **Ia** | Cyngor Gwynedd | **Aberdaron** - Gwaith cynnal a chadw ar asedau wedi ei gwblhau dros y dair blynedd hyd at 2023. |
| 37 | Ynys Enlli | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0 (0)** | **Ynys Enlli** | **Na** | | Dim gweithred |
| 38 | Tudweiliog | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **1** | **2 (2)** | **Tudweiliog** | **Na** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | Porthdinllaen Nefyn Morfa Nefyn | **24** | **12** | **4** | **5** | **3** | **9** | **31 (8)** | **Porthdinllaen** | **Ia** | Cyngor Gwynedd / YG | **Cynllun Gwytnwch Porthdinllaen** - Cynllun gwerth £300k ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 39 | | | | | | | | | | | | Genedlaethol wedi ei gwblhau yn 2022. |
| | | | | | | | | | **Nefyn** | **Na** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Morfa Nefyn** | **Ia** | | " |
| 40 | Aberdesach Trefor | **5** | **0** | **0** | **0** | **5** | **1** | **15 (11)** | **Aberdesach** | **Ia** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Trefor** | **Ia** | | " |
| 41 | Dinas Dinlle Pontllyfni | **61** | **10** | **26** | **3** | **22** | **34** | **0 (0)** | **Dinas Dinlle** | **Ia** | Cyfoeth Naturiol Cymru | **Cynllun Strategol Dinas Dinlle** - CNC yn edrych yn strategol ar yr ardal. |
| | | | | | | | | | **Pontllyfni** | **Na** | | Gweler Uchod |
| 43 | Caernarfon Y Felinheli Saron Llanfaglan | **303** | **51** | **51** | **26** | **175** | **152** | **89 (89)** | **Caernarfon** | **Na** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Y Felinheli** | **Na** | Cyngor Gwynedd | **Cynllun Atal Llifogydd Felinheli** - Mae'r cynllun yma oedd werth £850k wedi ei gwblhau ers 2021, mae canlyniadau'r cynllun yma wedi ei gyflwyno fel her i wybodaeth mapio CNC. |
| | | | | | | | | | **Saron** | **Na** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Llanfaglan** | **Ia** | | " |
| 46 | Tal Y Bont Abergwyngregyn | **2** | **0** | **0** | **0** | **2** | **0** | **0 (0)** | **Tal-Y-Bont** | **Na** | | I’w adolygu erbyn 2025 |
| | | | | | | | | | **Abergwyngregyn** | **Na** | | " |

**Amlinelliad o gynnwys y tabl**.

**Colofn 1;**
**Ardal Rheolaethol**
Gweler amlinelliad am Golofn 10 isod.

**Colofn 2;**
**Cymunedau**
Ein cymunedau sydd o fewn pob ardal reolaethol.

**Colofn 3,4,5,6,7;**
**Nifer o dai dan risg**

Mae'r gwybodaeth creiddiol yma o fapiau Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn creu ardal/haen ar fap i adlewyrchu'r ardaloedd sydd â phosibilrwydd o gael eu llifogi gan ddigwyddiad sydd â difrifoldeb a ffyrnigrwydd gallwn ei ddisgwyl unwaith pob 30 mlynedd, 200 mlynedd ac uwch.

**Colofn 8;**
**Nifer o asedau allweddol dan risg (eithrio tai)**

Tebyg iawn i'r colofnau uchod ond y tro yma yn cynnwys asedau heblaw am dai, er enghraifft canolfannau hamdden, meddygfeydd, ysgolion ayyb.

**Colofn 9;**
**Nifer o dai dan fygythiad erydiad**

Mae'r wybodaeth yma yn deillio o wybodaeth ddamcaniaethol CNC sydd yn ein galluogi ni asesu'r nifer o dai o fewn ardal sydd dan fygythiad o erydiad arfordirol. Y rhif o fewn y cromfachau yw tai sydd yn elwa o warchodaeth strwythur.

**Colofn 10;**
**Adluniad Rheolaethol**

Mae Adluniad Rheolaethol (Managed Realignment) yn un o bolisïau o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin 2. Mae hon yn ddogfen bolisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2014. Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn gosod cyfeiriad y polisi strategol ar gyfer rheoli'r arfordir ac yn nodi'r dulliau mwyaf cynaliadwy o reoli'r risgiau. Mae yn rhannu ein harfordir i **Ardaloedd Rheolaethol** (**sef sail Colofn 1**).
Mae pedwar opsiwn polisi ar gael ar gyfer Cynlluniau Rheoli Traethlin:
- *Cynnal y llinell*: uchelgais i adeiladu neu i gynnal amddiffynfeydd artiffisial fel bod llinell y draethlin yn cael ei chynnal. Gall hyn gynnwys cynnal neu newid safon yr amddiffyniad.
- *Symud y llinell*: drwy adeiladu amddiffynfeydd newydd ar yr ochr o'r amddiffynfeydd gwreiddiol sy'n wynebu'r môr. Ni ddefnyddir hwn yn aml, ac mae'n gyfyngedig i unedau polisi lle ystyrir adfer darn sylweddol o dir. Nid oes unrhyw unedau polisi yng Nghymru wedi cael yr opsiwn symud y llinell.
- *Adluniad Rheolaethol*: drwy ganiatáu i'r draethlin symud yn ôl ac ymlaen yn naturiol, ond yn rheoli'r broses er mwyn ei chyfeirio mewn mannau penodol.
- *Dim ymyrraeth weithredol*: pan nad oes unrhyw gynllun i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd na gweithrediadau arfordirol.
Mae amlinellu'r ardaloedd yma yn bwysig i ni yng Ngwynedd er mwyn ystyried pa effaith all adluniad rheolaethol ei gael ar ardaloedd mwy gwledig sydd efallai yn llai poblog ond yn allweddol i wytnwch ein Sir oherwydd gwerth hanesyddol, isadeiledd, twristiaeth, amaeth ayyb.

Mae'r gwybodaeth a gyflwynir yn nodi os oes ardal yn cynnwys adluniad rheolaethol yn y tymor canolig.

**Colofn 11;**
**Sefydliad Arweiniol**

Hunan esboniadwy.

**Colofn 12;**
**Prosiectau**

Crynodeb o brosiectau diweddar a rhai sydd ar y gweill i leihau risgiau llifogydd ac erydiad.

| | |
|---|---|
| ***Cynnal a Chadw*** | |
| Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am amrywiaeth o strwythurau RRLEA (Reoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol) megis waliau llifogydd a systemau gorlifo ar afonydd, waliau arfordirol a meysydd grwyn. Mae'r Cyngor yn cadw cofrestr o'r holl asedau RLPEA y mae'n berchen arnynt a/neu'n gyfrifol amdanynt, sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol am adeiladwaith a swyddogaeth pob ased. Defnyddir system fapio i gefnogi'r gofrestr sy'n dangos lleoliad a graddfa'r asedau a chaiff ei diweddaru er mwyn ymgorffori unrhyw newidiadau o ran gwybodaeth asedau o ganlyniad i waith gwella. | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |
| Asesir cyflwr asedau RRLEA y Cyngor yn rheolaidd gan ddefnyddio technegau safonol y diwydiant, i sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr digonol i ddarparu'r safon ddymunol o amddiffyniad, ac i adnabod unrhyw ddiffygion all beryglu'r modd y maent yn gweithio yn y dyfodol. Cynhelir archwiliadau cyflwr ar ôl stormydd yn ychwanegol i'r archwiliadau rheolaidd.<br><br>Yn ogystal, cynhelir rhaglen archwilio sy'n sicrhau nad ydi asedau rheoli perygl llifogydd y Cyngor yn cael eu heffeithio gan falurion yn eu sianeli a all arwain at fethiant yr ased a digwyddiadau llifogydd posib. Mae dyfeisiadau telemetreg yn gwasanaethu rhai asedau sy'n galluogi archwilio statws yr ased o bell, a thros amser, ein bwriad yw datblygu ein rhwydwaith synwyryddion i gynnwys mwy o'n hasedau, ac i ddarparu rhybuddion i'n staff pan fo posib i falurion sydd wedi cronni arwaith at fethiant yr ased (gweler Gweithred 2.4A). | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |
| Cyfrifol am bob pont a chwlfer ar y rhwydwaith priffyrdd lleol sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu ac nad ydynt yn peri perygl llifogydd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal a chadw pob gyli a draen ar y priffyrdd mewn rhaglen gylchol a bydd yn eu hatgyweirio neu eu gwella yn ôl eu cyflwr yn unol â llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor. | *GC Highways Department* |
| ***Cynllunio*** | |
| Mae Cyngor Gwynedd yn cyflawni cynlluniau gwella RRLEA i leihau'r risg o lifogydd lleol neu erydu arfordirol yn ein cymunedau mwyaf bregus. Ceir cymorth cyfalaf ar gyfer cynlluniau o'r fath trwy Raglen RLPEA Llywodraeth Cymru. I gefnogi ceisiadau am arian Llywodraeth Cymru cyflwynir achosion busnes sy'n dangos lefel y llifogydd a/neu berygl erydu arfordirol a darparir wybodaeth glir a digonol i ddangos fod y cynllun a ffafrir yn darparu datrysiad sy'n gynaliadwy, yn gymesur ac yn hyfyw yn economaidd i reoli risg. | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |
| Wrth gydnabod nad oes modd amddiffyn pob aelwyd rhag llifogydd gyda chynlluniau gwelliant cyfalaf, mae'r Cyngor hefyd yn cynnig cyngor i drigolion pryderus ar gamau y gellir eu gweithredu i leihau perygl llifogydd i'w heiddo. | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |
| ***Ymateb*** | |
| Yn ystod digwyddiad llifogydd bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau bod eu rhwydwaith o ffyrdd sirol yn parhau ar agor i gerbydau, er gall amodau storm, graddau'r llifogydd a'r | *Adran Priffyrdd* |

| | |
|---|---|
| adnoddau sydd ar gael fod yn ffactor sy'n golygu y bydd angen cau rhai ffyrdd i sicrhau diogelwch y cyhoedd. | *Cyngor Gwynedd* |
| Yn ystod digwyddiadau glawiad difrifol bydd y Cyngor yn ymdrechu cymaint â phosib i ddosbarthu bagiau tywod i drigolion sydd mewn peryg difrifol o gael llifogydd, fodd bynnag **cynghorir trigolion yn gryf i gael gafael ar eu hoffer eu hunain i reoli perygl llifogydd pan fo peryg o'r fath yn bodoli** oherwydd gall cyfnodau o dywydd garw effeithio'n sylweddol ar allu'r Cyngor i rannu bagiau tywod am mai'r flaenoriaeth yw cadw'r rhwydwaith priffyrdd ar agor i'r gwasanaethau brys. | *Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd* |
| Bydd y Cyngor yn gweithredu'n briodol i gefnogi'r gwasanaethau brys a'r rhai hynny sy'n rhan o'r ymateb brys; bydd yn cynorthwyo i symud pobl o'u cartrefi drwy drefnu trafnidiaeth; gosod a rheoli trefniadau canolfannau gorffwys a chyflawni gwaith clirio mewn cymunedau sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd. | *Adrannau amrywiol* |
| Wrth ddod yn ymwybodol fod dŵr llifogydd wedi mynd i mewn i eiddo ar ôl glawiad difrifol neu ddigwyddiadau llanwol, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal Ymchwil er mwyn darganfod beth yw ffynhonnell ac achos y llifogydd. Pan fo llifogydd yn dod o ffynhonnell nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdani, gellir cael gwybodaeth ar gyfer yr ymchwiliad wrth ymgynghori a phartneriaid medis CNC neu DCWW.<br><br>Mae ymchwiliadau llifogydd yn declyn hanfodol i sefydlu ffynhonnell ac achos llifogydd i'n trigolion. Mae ymchwiliadau'n ein caniatáu i adeiladu dealltwriaeth o berygl llifogydd i'n cymunedau ac mae hefyd yn gyfle i ni roi cyngor i'n trigolion sydd yn y peryg mwyaf am ddulliau i reoli'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |
| ***Rheoleiddio*** | |
| Mae Cyngor Gwynedd (ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) yn gweithredu fel awdurdod cynllunio lleol ac wrth wneud hynny rhaid iddynt ystyried y peryglon posib sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol wrth ddatblygu polisïau lleol a phenderfynu ar geisiadau datblygu.<br><br>Mae'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n gysylltiedig â phob cais cynllunio a dderbynnir gan Gyngor Gwynedd yn cael ei asesu yn unol â'r arweiniad yn TAN15 (Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol), sydd i gael ei ddiweddaru yn 2024. Mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori â chydweithwyr yn CNC ac Uned Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA) ar bob datblygiad arfaethedig lle mae llifogydd a/neu erydu arfordirol yn ystyriaeth berthnasol. | *Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd* |
| Mae gan Gyngor Gwynedd, fel SAB, ddyletswydd i gymeradwyo SuDS (Systemau Draenio Cynaliadwy) sy'n cadw at safonau statudol cenedlaethol. Mae angen caniatâd SAB ar gyfer unrhyw ddatblygiad gydag ôl-troed sy'n fwy na 100m$^2$. Ac eithrio safleoedd un cwrtil, mae gan SAB ddyletswydd hefyd i fabwysiadu systemau draenio o'r fath.<br><br>Yn unol ag Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, mae Cyngor Gwynedd yn cyflawni rôl Corff Cymeradwyo SuDS ar gyfer pob datblygiad cymwys. Mae hyn yn sicrhau bod pob datblygiad newydd gyda goblygiadau draenio yn cyrraedd safonau cenedlaethol SuDS i leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb a gwireddu pob budd perthnasol arall (ecolegol, mwynderol, ansawdd dŵr). Dros amser bydd y SAB yn dod yn gyfrifol am | *Gwasanaeth Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA)* |

| | |
|---|---|
| gynnal a chadw mwy o systemau SuDS ac felly bydd systemau rheoli asedau presennol yn cael eu hymestyn i gynnwys pob elfen a fabwysiadwyd gan y Cyngor. | |
| Dan adran 23 Deddf Draenio Tir, mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am awdurdodi caniatâd i unigolion neu ddatblygwyr sy'n dymuno cyflawni newidiadau i gyrsiau dŵr arferol all effeithio ar lif neu berygl llifogydd. Rhoddir pwerau pellach i Gyngor Gwynedd reoleiddio gweithgareddau ar gyrsiau dŵr arferol neu o'u hamgylch trwy Is-ddeddfau Draenio Tir (Cyngor Gwynedd). Mae copi o'r is-ddeddfau a datganiad sefyllfa i'w gael ar ein gwefan | Uned Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA) |
| Mewn sawl enghraifft gall rhwystro cwrs dŵr yn rhannol neu'n llawn olygu llifogydd i dir neu yn yr achosion gwaethaf i eiddo, busnesau a/neu seilwaith pwysig. Pan fydd Cyngor Gwynedd wedi cael gwybod am rwystr posib neu ataliad i gwrs dŵr arferol byddwn yn ceisio gweithio gyda'r holl bartïon dan sylw i helpu datrys y broblem cyn ystyried defnyddio pwerau gorfodi caniataol dan y Ddeddf Draenio Tir. | Uned Dŵr a'r Amgylchedd YGC (fel LLFA) |
| ***Monitro*** | |
| Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu rhaglen monitro arfordirol safonol ar ran Awdurdodau Morwrol Lleol Cymru i ddarparu'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar RRLEA. Mae Cyngor Gwynedd yn monitro lefelau traeth mewn lleoliadau critigol ar hyd y morlin fel rhan o'r rhaglen genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chefnogi gan arolygon lleol eraill yn ogystal ag arolygon ar ôl storm i adnabod unrhyw amrywiaethau yn lefelau traethau a all beri risgiau uniongyrchol i asedau arfordirol. | Uned Dŵr a'r Amgylchedd YGC |

Atodiad Ch: Amcanion a gweithredoedd arfaethedig Cyngor Gwynedd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol i'n cymunedau

| ***Amcan 1:*** | ***Anelu i leihau lefel risgiau llifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd*** |
|---|---|
| | |
| ***1.1*** | ***Rhaglenni rheoli risgiaul llifogydd ac erydu arfordirol*** |
| **Gweithred 1.1A** | *Cynnal rhaglen gyfalaf hirdymor i leihau risgiau llifogydd mewndirol* |
| | Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi a chynnal rhaglen hir dymor o astudiaethau a chynlluniau i reoli risgiauon llifogydd mewndirol (afonydd a dŵr wyneb) ar ein cymunedau. Bydd y rhaglen yn cynnwys manylion (lefel uchel) am amcanion a buddion posibl pob cynllun ac yn nodi cyfleoedd i weithio ochr yn ochr â sefydliadau partner a/neu randdeiliaid eraill. Bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol wrth i ragor o wybodaeth am risgiau llifogydd a digwyddiadau llifogydd ddod i'r amlwg. |
| **Gweithred 1.1B** | *Cynnal rhaglen gyfalaf hirdymor i leihau risgiau llifogydd/erydu arfordirol, gan ymgorffori camau gweithredu a nodwyd yn CRhT2* |
| | Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi a chynnal rhaglen hir dymor o astudiaethau a chynlluniau i reoli risgiauon llifogydd ac erydiad arfordirol ar ein cymunedau. Bydd y rhaglen yn cynnwys manylion (lefel uchel) am amcanion a buddion posibl pob cynllun ac yn nodi cyfleoedd i weithio ochr yn ochr â sefydliadau partner a/neu randdeiliaid eraill. Bydd ein rhaglen yn ymgorffori'r camau gweithredu a nodwyd yn CRhT2 i symud tuag at ddull cynaliadwy o reoli'r arfordir. Bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol wrth i ragor o wybodaeth am risgiau a chyflwr asedau arfordirol ddod i'r amlwg. |
| | |
| ***1.2*** | ***Gwelliannau rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol*** |
| **Gweithred 1.2A** | *Paratoi rhestr flynyddol o gynlluniau o gynllun gweithredu hirdymor i leihau risgiau llifogydd ac erydu arfordirol i'w chyflwyno i'w chynnwys ar raglen gyfalaf LlC* |
| | Bydd ein rhaglenni gwaith (mewndirol ac arfordirol) yn sail i'n cyflwyniad blynyddol o astudiaethau a chynlluniau i'w cynnwys ar y rhaglenni RRLEA cenedlaethol a thrwy hynny sicrhau cymorth grant gan Lywodraeth Cymru. |
| | |
| ***1.3*** | ***Rheoli asedau rheoli risgiau llifogydd/erydu arfordirol*** |
| **Gweithred 1.3A** | *Datblygu cofrestr a map o asedau draenio priffyrdd mewn ardaloedd sy'n dueddol o lifogydd* |
| | Mae gwybodaeth am osodiad systemau draenio dŵr wyneb o fewn perchnogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor, yn ogystal â chofnodion ategol, yn aml yn anghyflawn. Bydd y Cyngor yn gweithio i wella'r cofnodion sy'n bodoli mewn ardaloedd risgiau llifogydd dŵr wyneb uchel, fel y gellir nodi cyfleoedd i wella'r rhwydwaith ac y gellir datblygu cynlluniau cynnal a chadw a/neu reoli digonol i leihau risgiau llifogydd dŵr wyneb ar gyfer ein cymunedau. . |
| **Gweithred 1.3B** | *Datblygu cofrestr a map o'r holl elfennau SDC a fabwysiadwyd gan y Cyngor* |
| | Yn eu rôl fel CCS mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i fabwysiadu systemau draenio cynaliadwy sydd wedi eu hadeiladu i gydymffurfio â safonau cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn datblygu rhestr fanwl o systemau draenio mabwysiedig, gan |

| | |
|---|---|
| | gynnwys gwybodaeth am adeiladwaith a swyddogaeth pob elfen yn ogystal ag amserlenni archwilio a chynnal a chadw priodol. |
| | |
| ***1.4*** | ***Cynnal a chadw asedau rheoli risgiau llifogydd/erydu arfordirol*** |
| ***Gweithred 1.4A*** | *Paratoi a chyflawni rhaglen mân waith (refeniw) yn seiliedig ar ganfyddiadau asesiad cyflwr asedau er mwyn cynnal safon yr amddiffyniad a roddir gan asedau RRLEA.* |
| | Ar ôl cwblhau ein rhaglen archwilio asedau, bydd y Cyngor yn nodi rhaglen o waith cynnal a chadw neu fân waith sy'n seiliedig ar risgiau i sicrhau bod cyflwr yr asedau'n cael ei gynnal ac nad yw safon y warchodaeth bresennol yn cael ei pheryglu. Bydd unrhyw waith na ellir ei wneud gan ddefnyddio cyllideb refeniw benodedig y Cyngor ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei gynnwys ar raglen gwaith cyfalaf (gweler Gweithred 1.1). |

| ***Amcan 2:*** | ***Datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o risgiau llifogydd i Wynedd gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd*** |
|---|---|
| | |
| ***2.1*** | ***Gweithio gyda phartneriaid*** |
| ***Gweithred 2.1A*** | *Cyfrannu at ddigwyddiadau rhanddeiliaid gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill h.y. Grŵp Llifogydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru* |
| ***Gweithred 2.1B*** | *Cynnal trafodaethau rheolaidd ynghylch materion risgiau llifogydd yng Ngwynedd gyda chydweithwyr o CNC a Dŵr Cymru* |
| | Bydd gweithio ochr yn ochr a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill ar lefel leol a rhanbarthol yn galluogi Cyngor Gwynedd i ddeall heriau llifogydd yn well o bob ffynhonnell, a'n gwneud yn ymwybodol o bolisïau, astudiaethau neu gynlluniau a gynigir gan awdurdodau eraill i reoli risgiau llifogydd. Bydd trafodaethau rheolaidd gyda awdurdodau eraill hefyd yn ein galluogi i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, trwy rannu adnoddau neu wybodaeth i fynd i'r afael â heriau. |
| | |
| ***2.2*** | ***Archwiliadau llifogydd*** |
| ***Gweithred 2.2A*** | *Datblygu a gwella'r mecanweithiau presennol i adnabod achosion o lifogydd yng Ngwynedd cyn gynted â phosibl* |
| | Mae profiad wedi dangos i ni y gall gasglu gwybodaeth yn dilyn stormydd gymryd mwy o amser nag yr hoffem a all achosi oedi cyn dechrau ar y gwaith ymchwilio. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw'r Cyngor yn cael ei hysbysu am bob achos o lifogydd. Felly, er mwyn creu darlun cyflawn o effeithiau llifogydd ac i'n galluogi i ymgysylltu â'r trigolion yr effeithir arnynt cyn gynted â phosibl, rydym yn bwriadu edrych ar ddulliau amgen o gasglu gwybodaeth. |
| | |
| ***2.3*** | ***Modelu llifogydd*** |
| ***Gweithred 2.3A*** | *Datblygu modelu hydrolegol a hydrolig o ansawdd uchel i adeiladu ar fapiau cenedlaethol a deall risgiau llifogydd yn well ar lefel leol* |
| | Bydd ymchwiliadau manwl i risgiau llifogydd mewn ardaloedd risgiau uchel yn cael ei ategu gan waith modelu er mwyn galluogi'r Cyngor i amcangyfrif maint a dyfnder |

| | |
|---|---|
| | llifogydd ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau glaw a/neu llanw uchel, a hefyd ar gyfer amodau amrywiol (rhwystrau, methiant amddiffynfeydd ac ati. ). |
| ***Gweithred 2.3B*** | *Ymgorffori'r rhagamcanion newid hinsawdd mwyaf diweddar ym mhob ymarfer modelu llifogydd* |
| | Bydd pob ymarfer modelu hydrolegol a/neu lanw uchel a gynhelir er mwyn llywio gwaith ymchwilio neu ddylunio yn gwneud y lwfansau cywir ar gyfer effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol, yn seiliedig ar y canllawiau mwyaf diweddar sydd ar gael. |
| ***Gweithred 2.3C*** | *Rhannu gwybodaeth modelu llifogydd lleol gyda CNC fel y gellir diweddaru mapiau cenedlaethol fel y bo'n briodol* |
| | Bydd pob ymarfer modelu hydrolegol a/neu lanw uchel a gynhelir er mwyn llywio gwaith ymchwilio neu ddylunio yn cydymffurfio â safonau modelu CNC er mwyn caniatáu i'r mapiau llifogydd cenedlaethol gael eu diweddaru gyda gwybodaeth fanylach a chyfredol fel y bo'n briodol. |
| | |
| ***2.4*** | ***Casglu data*** |
| ***Gweithred 2.4A*** | *Gwella ein rhwydwaith o synwyryddion LoraWAN i fesur lefelau dŵr mewn cyrsiau dŵr yn ogystal â lefel dŵr daear mewn meysydd o ddiddordeb arbennig* |
| | Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu rhwydwaith o synwyryddion telemetreg sy'n gallu mesur lefel y llanw, lefel y dŵr o fewn cyrsiau dŵr a dŵr daear yn barhaus. Rydym yn bwriadu gwella'r rhwydwaith presennol o synwyryddion er mwyn creu darlun gwell o'r ardaloedd yr effeithir arnynt fwyaf gan stormydd. Dylai cymhwyso'r synwyryddion ymhellach hefyd alluogi'r Cyngor i gael ei rybuddio pan fydd angen ymyrryd er mwyn rheoli risgiau llifogydd (e.e., i glirio sgrin neu geuffos sydd wedi blocio). |
| ***Gweithred 2.4B*** | *Datblygu a gweithredu rhaglen fonitro ar gyfer ardaloedd o'r arfordir lle mae ansadrwydd clogwyni yn peri risgiau i bobl, eiddo a seilwaith.* |
| | Mae risgiau erydu arfordirol yn gyffredin ar hyd rhai ardaloedd o'r morlin a allai arwain at ansadrwydd eiddo neu seilwaith mewn rhai lleoliadau. Mae Cyngor Gwynedd i nodi'r ardaloedd lle mae'r risgiau o erydu arfordirol ar ei uchaf a datblygu rhaglen i fonitro unrhyw symudiadau o fewn wyneb y clogwyn fel y gellir mesur risgiau dros amser ac y gellir adnabod camau rheoli'r risgiauiau hyn. |

| ***Amcan 3:*** | ***Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd*** |
|---|---|
| | |
| ***3.1*** | ***Cynllunio Datblygu/Rheoli Datblygu*** |
| ***Gweithred 3.1A*** | *Ymgorffori yn y Cynllun Datblygu Lleol ofynion TAN15 mewn perthynas ag Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd* |
| | Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda chynllun yn ei le wedi'i fwriadu ar gyfer 2027 yn cael ei baratoi. Bydd y cynllun newydd yn cael ei arwain gan Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd i'w bartoi yn unol â'r fersiwn ddiweddara o TAN15 (Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol) sydd i'w gyhoeddi yn 2024, ynghyd â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Map |

| | |
|---|---|
| | Llifogydd ar gyfer Cynllunio, er mwyn arwain datblygiadau newydd i ardaloedd addas lle mae risgiau llifogydd yn dderbynniol. |
| ***Gweithred 3.1B*** | *Ystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol argymhellion ar gyfer newidiadau polisi arfordirol yn y dyfodol, a goblygiadau dilynol ar gyfer defnydd tir ger yr arfordir* |
| | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn cynnwys polisi Ardal Rheoli Newid Arfordirol gyda'r bwriad o gyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd arfordirol a allai wynebu mwy o risgiau o lifogydd a/neu erydu arfordirol yn y dyfodol oherwydd newidiadau mewn polisïau arfordirol, fel yr amlinellir yn CRhT2. Bydd y cynllun newydd hefyd yn cynnwys polisi cyfatebol, tra'n cymryd i ystyriaeth argymhellion defnydd tir penodol a allai fod wedi deillio o astudiaethau cynllunio addasiadau arfordirol dilynol. |
| | |
| ***3.2*** | ***Gwaith ger gyrsiau dŵr*** |
| ***Gweithred 3.2A*** | *Adolygiad cyfnodol o'r holl bolisïau sy'n ymwneud â gweithdrefnau caniatâd Draenio Tir i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei gynnal a bod datblygwyr arfaethedig yn ymwybodol o ofynion dylunio ac adeiladu* |
| | Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu sianelu cyrsiau dŵr oherwydd yr effeithiau ecolegol, risgiau llifogydd, diogelwch dynol ac effeithiau esthetig andwyol. Mae cyrsiau dŵr yn nodweddion llinellol pwysig o'r dirwedd a dylid eu cynnal fel coridorau di-dor i wneud y mwyaf o'u buddion i gymdeithas. Mae gan y Cyngor bolisi cylfatio sy'n esbonio i ymgeiswyr ym mha amgylchiadau mae gosod cylfat yn briodol a hefyd yn darparu meini prawf dylunio cyffredinol . Byddwn yn adolygu cynnwys y polisi hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y canllawiau hyn yn addas i'r diben ac yn unol â chanllawiau'r diwydiant. |
| | |
| ***3.3*** | ***Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) a Rheoli Risgiau Llifogydd Naturiol (NFM)*** |
| ***Gweithred 3.3A*** | *Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu cynlluniau SDC a NFM mewn ardaloedd a fydd yn sicrhau buddion risgiau llifogydd ystyrlon yn ogystal â buddion amgylcheddol ac amwynder eraill* |
| | Systemau draenio yw SDC yr ystyrir eu bod yn llesol i'r amgylchedd, gan achosi ychydig iawn o ddifrod niweidiol hirdymor, os o gwbl. Maent yn aml yn cael eu hystyried yn gyfres o arferion rheoli, strwythurau rheoli a strategaethau a gynlluniwyd i ddraenio dŵr wyneb yn effeithlon ac yn gynaliadwy, tra'n lleihau llygredd a rheoli'r effaith ar ansawdd dŵr cyrff dŵr lleol.<br><br>Mae NFM yn golygu gweithio gyda byd natur i leihau'r risgiau o lifogydd i gymunedau. Mae'n defnyddio technegau amrywiol i adfer neu ddynwared swyddogaethau naturiol afonydd, gorlifdiroedd a'r dalgylch ehangach. Ei nod yw storio dŵr yn y dalgylch ac arafu'r gyfradd y mae dŵr yn llifo i afonydd, er mwyn helpu i leihau llifogydd i lawr yr afon.<br><br>Un o flaenoriaethau allweddol y Strategaeth Genedlaethol yw darparu mwy o gynlluniau o'r math hwn, a chyda hyn mewn golwg bydd Cyngor Gwynedd yn nodi ardaloedd trefol ac ucheldir sy'n addas ar gyfer darparu ymyriadau SDC a NFM, naill ai fel prosiectau annibynnol neu fel rhan. cynlluniau rheoli risgiau llifogydd ehangach. |
| ***Gweithred 3.3B*** | *Gweithio gydag phartneriaid a thirfeddianwyr i gyflwyno cynlluniau NFM fel rhan o raglen genedlaethol* |


| | |
|---|---|
| | Wrth i arian ddod ar gael ar gyfer cynlluniau NFM bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio ochr yn ochr â thirfeddianwyr a phartneriaid i gyflawni prosiectau llwyddiannus sy'n gwireddu'r holl fuddion sy'n gysylltiedig â chynlluniau o'r fath. |
| ***Gweithred 3.3C*** | *Datblygu canllawiau sy'n amlinellu'n glir sut y dylid datblygu a dylunio cynlluniau NFM i gael caniatâd cwrs dŵr angenrheidiol (S23 ac is-ddeddfau LD) gan Gyngor Gwynedd* |
| | Fel yr eglurwyd uchod, mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ganiatáu gwaith yn y sianel yn ogystal â gwaith gerllaw cyrsiau dŵr arferol. Yn y rôl hon ein nod cyffredinol yw sicrhau bod sianeli afonydd yn parhau i fod yn rhydd o rwystr er mwyn gallu cludo llif yn effeithiol a lleihau'r risgiau o lifogydd y tu allan i'r sianel. Fodd bynnag, mae rhai mesurau NFM yn gyffredinol yn gwrthwynebu'r syniad hwn ac yn hytrach yn ceisio ailgysylltu'r sianel â'i gorlifdir ymhellach i fyny'r dalgylch o ardaloedd sy'n dueddol o lifogydd, fel bod briglifoedd yn cael eu gohirio. Bydd Cyngor Gwynedd yn datblygu canllawiau i sefydlu meini prawf dylunio ar gyfer mesurau NFM sydd angen ein caniatâd i osgoi unrhyw wrthdaro gyda'n gweithdrefnau caniatâd presennol. |

| ***Amcan 4:*** | ***Codi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd ac erydu arfordirol lleol*** |
|---|---|
| | |
| ***4.1*** | ***Codi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd lleol*** |
| ***Gweithred 4.1A*** | *Bydd Cyngor Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd i'w drigolion* |
| | Wrth i'r Cyngor ystyried y risgiau o lifogydd i gymuned trwy gynllun neu astudiaeth byddwn yn ymgysylltu â thrigolion a pherchnogion busnes/eiddo yn yr ardal o ddiddordeb i'w gwneud yn ymwybodol o risgiau o wahanol ffynonellau llifogydd. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'n cymunedau ble i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau llifogydd. |
| ***Gweithred 4.1B*** | *Bydd Cyngor Gwynedd yn cynghori ac yn hyrwyddo mesurau gwrthsefyll llifogydd a ymhlith eu trigolion* |
| ***Gweithred 4.1C*** | *Bydd Cyngor Gwynedd yn paratoi a chyhoeddi pamffled wybodaeth fydd ar gael i holl drigolion mewn ardaloedd risgiau llifogydd, ac unrhyw drigolion sydd wedi profi llifogydd yn eu heiddo.* |
| | Mae'r Cyngor yn dod ar draws llawer o drigolion sy'n wynebu risgiau barhaus o lifogydd i'w heiddo, ac mewn rhai achosion nid yw lleihau lefel y risgiau yn ymarferol nac yn ddichonadwy. Mewn achosion o'r fath byddwn yn cynghori ein trigolion ar ffyrdd o fyw ochr yn ochr â'r risgiau ar ffurf pamffled wybodaeth a baratowyd gyda'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol.<br><br>Byddwn hefyd yn darparu cyngor ar ddulliau i leihau'r tebygolrwydd o ddifrod trwy amddiffyniad lefel eiddo, ac yn cyfeirio ein preswylwyr at asiantau neu gyflenwyr all ddarparu'r cynhyrchion â sicrwydd ansawdd. |
| | |
| ***4.2*** | ***Codi ymwybyddiaeth o risgiau erydu arfordirol*** |
| ***Gweithred 4.2A*** | *Bydd Cyngor Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth o risgiau erydu arfordirol i'w trigolion, gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd sydd fwyaf mewn risgiau* |
| | Bydd Cyngor Gwynedd yn ymgysylltu â thrigolion a pherchnogion busnes/eiddo mewn ardaloedd lle mae erydiad arfordirol yn peri pryder er mwyn eu gwneud yn |

| | |
|---|---|
| | ymwybodol o’r risgiauiau hynny ac unrhyw newidiadau tebygol yn sefydlogrwydd y tir dros amser. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'n cymunedau ble i ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am risgiau erydu arfordirol. |

| ***Amcan 5:*** | ***Gweithio ar y cyd â phob Awdurdod Rheoli Risg arall a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cydgysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol*** |
|---|---|
| | |
| ***5.1*** | ***Paratoi a phrofi Cynlluniau Argyfwng*** |
| ***Gweithred 5.1A*** | *Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i adolygu a diweddaru ei gynlluniau argyfwng llifogydd ochr yn ochr â Gwasanaeth Cynllunio Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru; i gynnwys cynlluniau gwacáu a chanolfannau gorffwys.* |
| | |

Atodiad D: Crynodeb o sut bydd rhaglenni RRLEA Cyngor Gwynedd yn cael eu hadnabod a'u hyrwyddo



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023.

2. Roedd yr eitem 'Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei raglennu i'w drafod yn y cyfarfod yma. Mi fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr 2023 yn cytuno ar raglen waith ac yn darparu Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant.

3. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu ei drefniadau a strwythurau gweithredu. Derbyniwyd cadarnhad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y byddai'n amserol i gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024. Gan fod dealltwriaeth/gofyn i graffu gwaith y Bwrdd dwywaith yn ystod blwyddyn Cyngor, byddai craffu adeg hynny yn galluogi'r Pwyllgor i ddiwallu'r gofyn.

4. Yn y gweithdy blynyddol, rhaglenwyd yr eitem 'Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu' ar gyfer cyfarfod mis Ebrill 2024. Yng nghyfarfod cyswllt Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Adran, un o'r materion a drafodwyd oedd amseriad craffu'r eitem yma.

5. Er mwyn rhoi cyfle i ffrydiau gwaith yn y maes hwn i ddatblygu ymhellach, credir y byddai'n ddoeth i ystyried blaenoriaethu'r mater i'w graffu yng nghyfarfod cyntaf 2024/25, wrth lunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn y Gweithdy Blynyddol. Byddai ail-raglennu'r eitem yn galluogi'r Pwyllgor i ychwanegu gwerth drwy graffu yn amserol.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24

| **13/07/2023** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **05/10/2023** |
| • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan<br>• Toiledau Cyhoeddus |
| **30/11/2023** |
| • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **22/02/2024** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus<br>• Llawlyfr Cynnal Priffyrdd<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd |
| **18/04/2024** |
| • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd<br>• Gwasanaeth Edrychiad Stryd |

Eitem i'w raglennu yn 2024/25:

Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu